# Canllaw ar Ymarfer Dysgu

TAR-23J: Tystysgrif Addysg i Raddedigion

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Cynnwys


**Rhestr Gyswllt** 5

**Trosolwg o Gymorth Ymarfer Dysgu** 5

**Gwybodaeth am Staff Allweddol** 5

**Cyflwyniad** 7

**Trosolwg o'r Cwrs** 8

**Cymorth i Fyfyrwyr – rhanddeiliaid allweddol** 9

**Trosolwg o rolau a chyfrifoldebau wrth gefnogi'r athro dan hyfforddiant** 11

**Elfennau'r Cwrs** 15

**Y Deunyddiau Ar-lein: Amgylchedd Dysgu Rhithwir** 16

**Seminarau Ar-lein** 17

**Y Cyfnod Ymarfer Dysgu** 18

**Meithrin Sgiliau** 19

**Asesu (ATM ac ADM)** 20

Rhan 1: Tasgau asesu academaidd 21

Rhan 2: Yr e-Bortffolio – Ffolder Addysgu a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) 21

Disgwyliadau'r cyfnod Ymarfer Dysgu 23

**Y Llwybr Rhan Amser** 25

**Gofynion y Rhaglen** 25

**Gofynion yr Amserlen – Rhan Amser** 26

**Y Llwybr Cyflogedig** 29

**Gofynion y Rhaglen** 29

**Gofynion yr Amserlen - Cyflogedig** 32

**Blwyddyn 1 – Gofynion TAR 1 - Cyflogedig** 34

**Blwyddyn 1 – Gofynion TAR 2 - Cyflogedig** 35

**Blwyddyn 1 – Trefniadau Dewisol (ar ôl y Pasg) - Cyflogedig** 36

**Ail brofiad ysgol (ABY) – Myfyrwyr cyflogedig yn unig** 37

**Disgwyliadau a Gofynion Ail Brofiad Ysgol ar gyfer Ymarfer Dysgu - Cyflogedig** 40

**Blwyddyn 2 – gofynion TAR 3 - Cyflogedig** 41

**Gweithgareddau Ymarfer Dysgu (GYD)** 42

Cefnogi elfen astudio gwersi Gweithgareddau Ymarfer Dysgu ac astudiaeth graddfa fach 45

**Cefnogi myfyrwyr AGA: Trosolwg o'r disgwyliadau** 46

**Datblygiad a Chymorth Mentor** 48

**Ble ydw i'n dod o hyd? Pwy ddylwn i ofyn?** 49

**Sesiynau Mentor** 51

**Asesu Ymarfer Dysgu – Asesu Cynnydd** 52

**Defnyddio’r Fframwaith Asesu:** 53

**Barn am gynnydd** 53

**Adolygu Cynnydd Myfyrwyr** 54

**Defnyddio IRIS Connect – Adolygiad y Tiwtor Ymarfer** 60

**Y Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr (SSF)** 61

**Sut i gwblhau’r Adroddiad Ymarfer Dysgu (AYD)** 62

**Sut i asesu datblygiad sgiliau Cymraeg athro dan hyfforddiant?** 65

**Atodiad 1: Rhestr termau** 67

# Rhestr Gyswllt

## Trosolwg o Gymorth Ymarfer Dysgu

| Enw | Maes Cyfrifoldeb | Manylion cyswllt |
|---|---|---|
| Leigh Worrall | Datblygiad Proffesiynol: Ymarfer Dysgu; Tiwtor Cwricwlwm Uwchradd Saesneg | leigh.worrall@open.ac.uk |
| Megan Jones | Cymorth a Datblygiad Mentoriaid<br><br>Tiwtor Cwricwlwm Cynradd | megan.jones@open.ac.uk |
| Nerys Defis | Cymorth Cydlynwyr Ysgolion, Tiwtor Cwricwlwm Cynradd | nerys.defis@open.ac.uk |
| Catharine Bleasdale | Cymorth Tiwtoriaid Ymarfer, Tiwtor Cwricwlwm Cynradd | catharine.bleasdale@open.ac.uk |
| Wales PGCE Office | Gweinyddol, Lleoliadau, cydymffurfiaeth | Wales-PGCE@open.ac.uk |

## Gwybodaeth am Staff Allweddol

| Enw | Rôl | Manylion cyswllt |
|---|---|---|
| Sarah Stewart | Cyfarwyddwr TAR | |
| Grace Clifton | Cadeirydd Modiwl TAR3 | grace.clifton@open.ac.uk |
| Mathew Jones | Is-gadeirydd Modiwl<br><br>Tiwtor Cwricwlwm Cynradd | mathew.r.jones@open.ac.uk |
| Catharine<br><br>Bleasdale | Cadeirydd Modiwl TAR1<br><br>Tiwtor Cwricwlwm Cynradd | catharine.bleasdale@open.ac.uk |

| | | |
|---|---|---|
| Nia Cole Jones | Is-Gadeirydd Modiwl Datblygu'r Gymraeg<br>Tiwtor Cwricwlwm Uwchradd Cymraeg | nia.cole-jones@open.ac.uk |
| Rachel Wallis | Tiwtor Cwricwlwm Cynradd | rachel.wallis@open.ac.uk |
| Carys Jennings | Tiwtor Cwricwlwm Cynradd | carys.jennings@open.ac.uk |
| Jonathan Giddy | Tiwtor Cwricwlwm Uwchradd Gwyddoniaeth | jonathan.giddy@open.ac.uk |
| Nigel Wills | Tiwtor Cwricwlwm Uwchradd Mathemateg | nigel.wills@open.ac.uk |
| Padraig Egan | Tiwtor Cwricwlwm Cynradd | padraig.egan@open.ac.uk |

*Rhennir gwybodaeth am Diwtoriaid Cwricwlwm gyda'r Mentoriaid a'r athrawon dan hyfforddiant yn ystod digwyddiadau sefydlu mis Medi.

# Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu llwybrau cyflogedig a rhan amser Rhaglen Bartneriaeth TAR y Brifysgol Agored yng Nghymru i ddysgu ac yn rhoi canllawiau manwl ar yr hyn a ddisgwylir yn ystod ymarfer dysgu i randdeiliaid allweddol.


Mae iddo dri diben allweddol:

- rhoi **trosolwg o strwythur darpariaeth ran amser a chyflogedig TAR y Brifysgol Agored yng Nghymru** ar gyfer hyfforddiant athrawon
- nodi'r **wybodaeth allweddol sy'n ofynnol gan staff ysgolion** a chydlynwyr ysgolion i gefnogi athrawon dan hyfforddiant sy'n ymgymryd â'r llwybr TAR rhan amser a'r llwybr TAR cyflogedig i addysgu
- **cyfeirio at adnoddau perthnasol** a all helpu cydweithwyr mewn ysgolion i gefnogi athrawon dan hyfforddiant drwy'r cwrs TAR

Dylid cyfeirio at y canllaw hwn ar y cyd â deunydd ategol sydd ar gael ar Wefan Parterniaeth TAR y Brifysgol Agored ac i fyfyrwyr drwy **Amgylchedd Dysgu Rhithwir** y Brifysgol Agored a'u **Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP)**.

# Trosolwg o’r Cwrs

Bydd y cymhwyster hwn yn rhoi **Statws Athro Cymwysedig (SAC)** i chi ar y cyd â **Thystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)** ar gyfer addysgu cynradd neu uwchradd gyda 60 credyd ar lefel israddedig a 60 credyd ar lefel meistr.




***Ffigur 1: Trosolwg o’r Rhaglen***

Mae'n bwysig nodi mai cwrs dwy flynedd yw hwn sy'n hyrwyddo dull graddol o hyfforddi athrawon, o: ymgyfarwyddo i atgyfnerthu ac, yn olaf, ymreolaeth, gan ddod i ddeall a chymhwyso damcaniaeth, addasu sgiliau a datblygu dulliau addysgegol.Yn ystod yr amser hwn byddant yn cwblhau unedau astudio ar-lein a lleoliadau ymarfer dysgu mewn ysgolion partner, yn mynychu seminarau ar-lein ac yn cyflwyno Asesiadau mae’r Tiwtor yn Marcio (ATM) ac Asesiadau Diwedd Modiwl (ADM / EMA) academaidd.

Ystyriaethau allweddol:

Mae dwy ran i Flwyddyn 1: TAR 1 (sy'n rhedeg o fis Hydref i fis Chwefror) a TAR 2 (sy'n rhedeg o fis Mawrth i fis Mehefin).

Ym mlwyddyn 1, mae Mehefin a Gorffennaf yn ymroddedig i gwblhau gweithgareddau pontio sy'n adeiladu ar ymarfer dysgu a datblygiad proffesiynol yr athrawon dan hyfforddiant. Ar gyfer myfyrwyr cyflogedig bydd hyn yn cael ei gwmpasu gan yr Ail Brofiad Ysgol.

Gellir defnyddio'r amser hwn (Mai-Gorffennaf) hefyd i ymestyn lleoliad dysgu ymarfer athrawon dan hyfforddiant lle bo angen, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r Safonau SAC yn llawn.


Cyfeirir at Flwyddyn 2 yn aml fel TAR 3.

# Cymorth i Fyfyrwyr – rhanddeiliaid allweddol

Caiff myfyrwyr eu cefnogi'n uniongyrchol gan y canlynol:

- ✓ Mentor
- ✓ Cydlynydd Ysgol
- ✓ Tiwtor Ymarfer
- ✓ Tiwtor Cwricwlwm

Bydd pob un o'r rolau hyn yn gweithredu mewn modd cydweithredol er mwyn hwyluso cynnydd myfyrwyr tuag at gyflawni'r Safonau Proffesiynol. Ceir trosolwg yn **Ffigur 2:**




***Ffigur 2: Cefnogi'r athro dan hyfforddiant***

# Trosolwg o rolau a chyfrifoldebau wrth gefnogi'r athro dan hyfforddiant

| Rôl y BA | Rôl yn yr ysgol: | Yn gyfrifol am: |
|---|---|---|
| **Mentor** | Athro sydd wedi'i nodi fel un sy'n defnyddio ddulliau addysgegol yn rhagorol, yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o theori ac ymarfer, ac ymchwil weithredol. Wedi'i leoli o fewn cyfnod neu adran y myfyriwr. | ✓ Goruchwylio'r amserlen.<br>✓ Cynnal arsylwadau gwersi anffurfiol a ffurfiol a rhoi adborth.<br>✓ Pennu targedau<br>✓ Asesu cynnydd myfyrwyr yn erbyn y Safonau SAC<br>✓ Helpu i gwblhau Gweithgareddau Ymarfer Dysgu<br>✓ Cwblhau'r Ffurflen Adolygu Ymarfer (canol blwyddyn)<br>✓ Cwblhau'r Adroddiad Ymarfer Dysgu (Adran A).<br>✓ Sicrhau lles a chefnogi'r athro dan hyfforddiant o ddydd i ddydd<br>✓ Mynychu digwyddiadau briffio a datblygu.<br>✓ Gweithio gyda'r athro dan hyfforddiant i'w helpu i feithrin sgiliau Cymraeg a sgiliau Cymraeg y disgyblion. Asesu cynnydd yr athro dan hyfforddiant yn erbyn *Fframwaith Cymwyseddau Iaith Gymraeg Ymarferwyr Addysg*. |


| | | |
|---|---|---|
| | | ✓ Cwblhau adolygiad ymarfer yr Ail Brofiad Ysgol (pan yn berthnasol ac os yn cefnogi myfyriwr Cyflogedig)<br>✓ Datblygu gwybodaeth broffesiynol bersonol wrth gwblhau'r awdit Sgiliau Mentor a'r cwrs Open Learn 'Meddylfryd Mentora' |
| **Cydlynydd Ysgol** | Aelod o'r UDA/athro profiadol yn gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth AGA | ✓ Cadarnhau a chytuno ar leoliad yr ymarfer dysgu, gan gynnwys patrwm y dyddiadu i fyfyrwyr rhan-amser<br>✓ Dewis y Mentor/iaid a rhannu gwybodaeth allweddol am ofynion y rhaglen TAR<br>✓ Goruchwylio'r broses o lunio'r amserlen a chydymffurfiaeth â hi.<br>✓ Cefnogi'r Mentor a sicrhau ansawdd cefnogaeth yr ysgol<br>✓ Arsylwi gwersi'n ffurfiol ac anffurfiol gan roi adborth<br>✓ Rhoi cyfleoedd i'r athro dan hyfforddiant ymuno gyda gweithgareddau datblygiad proffesiynol yr ysgol<br>✓ Cefnogi gyda'r Gweithgareddau Ymarfer Dysgu<br>✓ Cydgysylltu â'r Mentor, y Tiwtor Ymarfer a'r Tiwtor Cwricwlwm ar adegau penodol o'r flwyddyn<br>✓ Sicrhau ansawdd rhan y Mentor o'r Adroddiad Ymarfer Dysgu (Adran A)<br>✓ Cwblhau'r Adroddiad Ymarfer Dysgu (Adran B)<br>✓ Mynychu digwyddiadau briffio a datblygu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | ***Myfyrwyr cyflogedig yn unig: Yr Ail Brofiad Ysgol***<br><br>✓ Cydgysylltu â lleoliad y cyflogai ynglŷn ag amserlennu. |
| **Tiwtor Ymarfer** | Athro profiadol iawn o ysgol wahanol a benodwyd yn annibynnol gan y Brifysgol Agored.. | ✓ Dilysydd allanol ar gyfer y Brifysgol Agored.<br>✓ Cwblhau ymweliad rhithwir gan ddefnyddio IRIS Connect i arsylwi'n ffurfiol ar yr athro dan hyfforddiant (pedair gwaith dros gyfnod o ddwy flynedd y cwrs) ac asesu cynnydd.<br>✓ Cwblhau'r Ffurflen Adolygu Ymarfer (canol blwyddyn)<br>✓ Adroddiad Ymarfer Dysgu (Adran C).<br>✓ Cydgysylltu â'r Cydlynydd Ysgol, y Mentor, yr athro adan hyfforddiant a'r Tiwtor Cwricwlwm lle y bo angen.<br>✓ Mynychu a/neu gyfrannu at ddigwyddiadau hyfforddi, safoni a chymedroli lle y bo angen. |
| **Mentor y Gymraeg** | Siaradwr Cymraeg rhugl/hyfedr iawn sydd â'r gallu i helpu'r athro dan hyfforddiant i feithrin sgiliau Cymraeg.<br><br>*Noder – dim ond os bydd Mentor yn teimlo nad yw ei sgiliau Cymraeg o safon ddigonol i asesu cynnydd yr athro dan hyfforddiant y bydd angen y rôl hon.* | ✓ Gweithio gyda'r Mentor a'r athro dan hyfforddiant lle y bo angen i'w helpu i feithrin eu sgiliau Cymraeg.<br>✓ Helpu'r Mentor i asesu cynnydd yr athro dan hyfforddiant yn erbyn *Fframwaith Cymwyseddau Iaith Gymraeg Ymarferwyr Addysg*.<br>✓ Cydgysylltu â'r Tiwtor Ymarfer lle y bo angen ynglŷn â chynnydd yr athro dan hyfforddiant.<br>✓ Mynychu digwyddiadau datblygu lle y bo angen. |

| | | |
|---|---|---|
| **Tiwtor**<br><br>**Cwricwlwm** | Cyflogir gan y Brifysgol Agored | ✓ Cydgysylltu ag ysgolion ac athrawon dan hyfforddiant i sicrhau cydymffurfiaeth â disgwyliadau'r rhaglen<br>✓ Cyfeirio at ddogfennaeth ffurfiol i adolygu cynnydd yr athro dan hyfforddiant yn rheolaidd<br>✓ Cefnogi llesiant a rhoi'r Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr ar waith lle y bo angen<br>✓ Cynnal seminarau ar-lein<br>✓ Asesu asesiadau prifysgol yr athro dan hyfforddiant a'r cynnydd yn erbyn y Safonau SAC |

# Elfennau'r Cwrs

Mae'r diagram isod yn dangos elfennau'r cwrs y bydd ein hathrawon dan hyfforddiant yn ymgymryd â nhw:




***Ffigur 3: Elfennau'r cwrs***

Gofynnir i athrawon dan hyfforddiant greu **Ffolder Addysgu Personol ar One Drive y Brifysgol Agored.** Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i storio eu cynllunio parhaus, gwerthusiadau a deunyddiau addysgu. Byddant hefyd yn cael mynediad at **Basbort Dysgu Proffesiynol (PDP) Cyngor y Gweithlu Addysg**. Byddant yn ei ddefnyddio i gadw tystiolaeth o'u cynnydd yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ar gyfer SAC trwy gydol eu hamser ar y cwrs.

Dylent rannu dolen i'r Ffolder Addysgu gyda'u Tiwtor Cwricwlwm, Mentor a'r Tiwtor Ymarfer i'w galluogi i gynnig cymorth lle bo angen a chael mynediad at ddogfennau allweddol drwy gydol y rhaglen.

Bydd Tiwtoriaid Cwricwlwm yn rhoi arweiniad ynghylch lle y dylid uwchlwytho dogfennau a darperir hyfforddiant ffurfiol ar gyfer defnyddio'r PDP yn gynnar yn y flwyddyn academaidd.

Ar hyn o bryd, ni fydd disgwyl i staff ysgol uwchlwytho tystiolaeth i'r PDP ond dylent gefnogi'r athrawon dan hyfforddiant i ddangos tystiolaeth gywir o'u gwaith a'i ddefnyddio fel ffocws allweddol ar gyfer trafodaeth yn eu cyfarfodydd mentora. Mae **cynllunydd astudio myfyrwyr** ar gael i gefnogi athrawon dan hyfforddiant i drefnu eu hamser ac mae'n darparu trosolwg o agweddau a gofynion cydgysylltiedig y rhaglen.

## Y Deunyddiau Ar-lein: Amgylchedd Dysgu Rhithwir

**Y chwe elfen:**

**A: Y Cwricwlwm**
**B: Deall Dysgwyr**
**C: Cynllunio ar gyfer Dysgu**
**D: Addysgeg**
**E: Asesu**
**F: Ymarfer Professiynol**

Bydd myfyrwyr yn cwblhau modiwlau astudio ar-lein sy'n cynnwys awdit gwybodaeth trylwyr ac yn cyfuno astudiaethau craidd a gwybodaeth broffesiynol ac addysgegol yn chwe llinyn datblygiad athro dan hyfforddiant: Y Cwricwlwm, Deall Dysgwyr, Cynllunio ar gyfer Dysgu, Addysgeg, Asesu ac Ymarfer Proffesiynol.

Disgwylir i fyfyrwyr weithio drwy'r rhain ar eu cyflymder eu hun ac i ystyried y wybodaeth ddamcaniaethol ar y cyd â'u profiad ymarfer dysgu. Bydd y deunyddiau hyn hefyd yn eu helpu i gwblhau'r

Aseiniadau mae'r Tiwtor yn Marcio (ATM) a'r Asesiadau Diwedd Modiwl (ADM). Nid oes disgwyl i fodylau'r cwrs gael eu haddysgu mewn ysgolion, ond rydym yn annog Mentoriaid i gefnogi'r athrawon dan hyfforddiant wrth iddynt ddeall ac archwilio theori yn ymarferol. Byddem yn disgwyl i'r llinynnau pedagogaidd hyn ffurfio rhan o sesiynau Mentor rheolaidd a chyfleoedd dysgu proffesiynol o fewn lleoliad yr ysgol. Disgwylir i athrawon dan hyfforddiant ddogfennu eu dysgu trwy ddefnyddio **Cofnodlyfr Dysgu Academaidd y dylent ei storio yn eu Ffolder Addysgu Personol.**

Bydd myfyrwyr sy'n dilyn y cwrs rhan-amser fel arfer yn cwblhau eu hastudiaeth ar-lein ofynnol ar gyfer pob modiwl cyn ymgymryd â'r ymarfer dysgu. Ar gyfer myfyrwyr cyflogedig, **rhaid** cynnwys amser ar gyfer astudio ar-lein fel rhan o'u hamserlen wythnosol

## Seminarau Ar-lein

Bydd myfyrwyr yn mynychu seminarau min nos, ar-lein gyda'u Tiwtor Cwricwlwm bob pythefnos. Bydd y rhain yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr drafod ac ystyried eu hymchwil, eu gwaith darllen a'u hastudiaeth ynghyd â'u profiad ymarfer dysgu gyda myfyrwyr eraill. Maent yn rhan annatod o'r bartneriaeth sydd â'r nod o ddadansoddi'r agweddau damcaniaethol ar eu dysgu mewn perthynas â'u profiad yn yr ystafell ddosbarth ac, yn arbennig, eu pwnc neu gyfnod. Mae'n bwysig nodi na fydd seminarau'n ailadrodd cynnwys yr astudiaeth ar-lein ond yn ceisio annog myfyrwyr i archwilio sut mae theori yn cysylltu ag ymarfer ac yn effeithio ar eu cynnydd tuag at dargedau.

**Mae mynychu'r seminarau hyn yn orfodol** a dylai athrawon dan hyfforddiant roi gwybod i'w Tiwtor Cwricwlwm mewn da bryd os na fyddant yn gallu bod yn bresennol. Disgwylir prydlondeb ac ymgysylltiad, gyda chamerâu ymlaen. Adroddir ar ymgysylltiad myfyrwyr gan diwtoriaid ar bwyntiau adolygu cynnydd rheolaidd yn y flwyddyn.  Caiff dolenni'r cyfarfodydd TEAMS eu rhannu gyda'r myfyrwyr cyn y seminarau yn ogystal ag unrhyw adnoddau neu waith ddarllen ymlaen llaw sydd angen.

# Y Cyfnod Ymarfer Dysgu

Mae'r Cyfnod Ymarfer Dysgu yn cwmpasu diwrnodau ymarfer dysgu penodol (diwrnodau lleoliad ysgol). Mae **gofyniad statudol** ar bob myfyriwr i gwblhau **120 o ddiwrnodau ymarfer dysgu** dros gyfnod o ddwy flynedd:

| | |
|---|---|
| BLWYDDYN 1 (TAR 1 A 2) | 60 diwrnod |
| BLWYDDYN 2 (TAR 3) | 60 diwrnod (y mae'n rhaid i 30 diwrnod o leiaf gael eu chwblhau mewn bloc) |

Caiff hyn ei gynnwys yn amserlenni myfyrwyr cyflogedig. Felly, **mae'n bwysig bod yr amserlenni hyn yn cydymffurfio â disgwyliadau'r rhaglen** ac yn adlewyrchu'n gywir yr amser a roddir i fyfyrwyr gwblhau eu hymarfer dysgu a'u haddysgu, eu hastudiaeth gyda'r Brifysgol Agored a'u rôl gyflogedig.

Bydd angen i athrawon dan hyfforddiant gynllunio a chofnodi sut maent wedi cwblhau eu diwrnodau ymarfer dysgu drwy eu **Taflen Amser**, y gellir cael gafael arni drwy'r tab Adnoddau ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir. Gofynnwn i bob athro dan hyfforddiant rannu eu hamserlen gyda'u tiwtor cwricwlwm o fewn pythefnos cyntaf eu lleoliad er mwyn iddynt sicrhau ei fod yn cydymffurfio â disgwyliadau'r cwrs. Dylid storio copi ohono yn Ffolder Addysgu Personol yr athro dan hyfforddiant.

Mae gwybodaeth fanwl am amserlenni a gofynion addysgu ar gael yn y **Canllawiau Lleoliadau Dysgu Ymarfer** a anfonwyd at Gydlynwyr Ysgol a Phenaethiaid ac sydd ar gael ar wefan y Bartneriaeth.

## Meithrin Sgiliau

Caiff gwybodaeth bynciol, llythrennedd, rhifedd, datblygiad sgiliau Cymraeg a chymhwysedd digidol eu harchwilio ar ddechrau'r cwrs gan yr athrawon dan hyfforddiant. Bydd y broses hon yn eu galluogi i greu cynllun dysgu unigol ac i atgyfnerthu eu targedau ar gyfer y dyfodol. Dylid ailedrych ar y targedau drwy gydol y cwrs er mwyn adnabod agweddau i'w datblygu. Caiff cynnydd ei fonitro a'i asesu gan Fentoriaid ysgol ochr yn ochr â'r Cydlynydd Ysgol, arweinydd y Gymraeg, y Tiwtor Ymarfer a'r Tiwtor Cwricwlwm.

Dylid cadw pob archwiliad ar y PDP a'i ailystyried yn unol â'r canllawiau a amlinellwyd, yn enwedig wrth baratoi ar gyfer asesiadau'r ATM a'r ADM, i ddangos tystiolaeth o gynnydd yn y meysydd allweddol hyn.

Caiff sgiliau a datblygiad y Gymraeg eu hasesu yn erbyn chwech lefel hyfedredd y *Fframwaith Cymwyseddau Iaith Gymraeg Ymarferwyr Addysg*. Yn ystod y cwrs, disgwylir i fyfyrwyr ddatblygu eu gallu i gyfathrebu yn Gymraeg, ni waeth beth fo'u lefel gychwynnol. Gellir dod o hyd i adnoddau a deunyddiau hyfforddi i fyfyrwyr drwy'r tab Adnoddau ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir, a chaiff myfyrwyr gynnig seminarau ar hyn yn gynnar ym mhob modiwl. Mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn casglu tystiolaeth o'u gallu i feithrin nid yn unig eu sgiliau Cymraeg eu hunain ond sgiliau Cymraeg eu disgyblion hefyd. Dylai hyn gynnwys pob agwedd ar gaffael iaith: llafaredd, gwrando, darllen ac ysgrifennu, a'r ffordd y maent yn meithrin sgiliau llythrennedd Cymraeg eu disgyblion. Caiff canllawiau ar sut i ddangos hyn eu rhannu â myfyrwyr a Mentoriaid yn ystod digwyddiadau allweddol a seminarau penodol.

## Asesu (ATM ac ADM)

Bydd yr athrawon dan hyfforddiant yn cwblhau asesiadau ar adegau allweddol o'r flwyddyn. Bydd yr asesiadua yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth, ac yn ffordd o feithrin eu sgiliau ymchwil, gwella eu sgiliau darllen beirniadol ac ysgrifennu academaidd. Mae'r tasgau hyn ar wefan Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol. Bydd y myfyrwyr yn cael cefnogaeth a chanllawiau gan y Tiwtoriaid Cwricwlwm, a gallant hefyd fanteisio ar gymorth drwy drafodaethau'r fforwm. Dylai Mentoriaid gefnogi'r athrawon dan hyfforddiant i gael gafael ar unrhyw wybodaeth allweddol am yr ysgol fydd ei hangen i gwblhau'r

tasgau hyn. Dylent hefyd drafod cynnydd tuag at y rhain yn eu cyfarfodydd Mentor rheolaidd. Bydd angen cefnogaeth a sylw penodol ar sut i gynnal astudiaeth gwers sy'n canolbwyntio ar ddull pedagogaidd yn y flwyddyn gyntaf, yn ogystal â phrosiect ymchwil ar raddfa fach yn ail flwyddyn y cwrs.

Rhennir y broses asesu yn ddwy ran:

## Rhan 1: Tasgau asesu academaidd

Mae'r tasgau asesu academaidd yn gyfuniad o dasgau sy'n cynnwys ysgrifennu academaidd. Maent yn asesu gallu'r athrawon dan hyfforddiant i werthuso theori yn ymarferol a chefnogi eu gwaith, gan gyfeirio at y gwaith astudio ar-lein a darllen ehangach. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd y myfyriwr yn cwblhau tasgau a gaiff eu hasesu yn erbyn deilliannau dysgu cymhwyster Lefel 6. Yn yr ail flwyddyn, bydd y myfyriwr yn cwblhau tasgau a gaiff eu hasesu yn erbyn deilliannau dysgu cymhwyster Lefel 7 (lefel Meistr). Mae Canllaw Asesu ar gael i'r myfyrwyr ar eu gwefan, sy'n esbonio'r tasgau asesu a'r meini prawf marcio.  Yn ystod blwyddyn 1 bydd myfyrwyr yn cwblhau ATM hanner ffordd drwy'r flwyddyn ac ADM ar ddiwedd y flwyddyn. Ym mlwyddyn 2 bydd myfyrwyr yn cwblhau un ADM ar ddiwedd y flwyddyn.

## Rhan 2: Yr e-Bortffolio – Ffolder Addysgu a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP)

Bydd y Tiwtor Cwricwlwm yn asesu'r dystiolaeth a gasglwyd o fewn PDP yr athro dan hyfforddiant a'u Ffolder Addysgu Personol (lle bo'n berthnasol) i asesu cynnydd athro dan hyfforddiant tuag at fodloni'r

Safonau Proffesiynol ar gyfer SAC. Ar adegau adolygu allweddol ar hyd y flwyddyn bydd Tiwtoriaid Twricwlwm yn myfyrio ar gynnydd yr athrawon dan hyfforddiant yn erbyn meysydd penodol o'r Safonau ac yn nodi meysydd i'w datblygu. Gelwir y pwyntiau adolygu hyn yn **Adolygiadau Cynnydd Myfyrwyr** a bydd dyddiadau'r rhain yn cael eu rhannu gyda’r athrawon dan hyfforddiant a'u Mentoriaid. Disgwylir y bydd Mentoriaid yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant i gasglu tystiolaeth allweddol ac yn monitro hyn trwy eu sesiynau Mentor rheolaidd.

**Bydd Tiwtoriaid Cwricwlwm yn ystyried y canlynol:**

- Arsylwadau gwers ffurfiol, Adolygiadau o Ymarfer, Adroddiada Ymarfer Dysgu yn unol â’r amserlen dyddiadau cyflwyno
- Tystiolaeth yn erbyn y Safonau Profesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth
- Tystiolaeth o ddatblygiad llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys yr awdit.
- Tystiolaeth o ddatblygiad gwybodaeth bynciol y myfyriwr gan gynnwys yr awdit
- Tystiolaeth o ddatblygiad Cymraeg y myfyriwr yn erbyn Fframwaith y Gymraeg.
- Canlyniadau awdit cymhwysedd digidol a thystiolaeth o gynnydd
- Manylion profiad ymarfer dysgu'r myfyrwyr

Bydd tystiolaeth o gynnydd i'w gael yn y Ffurflenni Adolygu Ymarfer, Adroddiadau Ymarfer Dysgu, ffurflenni arsylwi gwersi, cynlluniau gwersi a gwerthusiadau a'r enghreifftiau o adnoddau. Mae'n cadw at ddyddiadau cyflwyno gwaith papur ffurfiol yn allweddol er mwyn cefnogi'r athrawon dan hyfforddiant i gasglu eu tystiolaeth yn rheolaidd a sicrhau bod Adolygiadau Cynnydd yn gallu digwydd. Bydd unrhyw waith papur ffurfiol sydd ar goll yn cael ei nodi gan y Tiwtoriaid Cwricwlwm yn y mannau adolygu hyn a bydd ysgolion yn cael gwybod lle bo angen.

## Disgwyliadau'r cyfnod Ymarfer Dysgu

Mae ymarfer dysgu yn ddatblygol ac yn cysylltu profiadau addysgu a datblygiad proffesiynol myfyrwyr gyda'u hastudiaethau ar-lein a'u seminarau.

**Er mwyn cefnogi cynnydd yr athrawon dan hyfforddiant yn ystod y Rhaglen, mae angen amserlennu i alluogi myfyrwyr:**


- I addysgu ar draws o leiaf dau ystod oedran olynol
- I addysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd am y rhan fwyaf o'u hamser
- I gael eu hamserlennu'n aml yn nosbarth(au) eu Mentor
- I dderbyn cyfleoedd i arsylwi a phrofi ystod eang o addysgu sy'n eu galluogi i ddatblygu gwybodaeth am y cyfnod cynradd neu eu pwnc oed uwchradd
- I gael cyflwyniad graddedig i addysgu

- I dderbyn cefnogath gyda'r Gweithgareddau Ymarfer Dysgu, gweithgarwch astudiaeth gwers a'r ymchwil graddfa-fach
- I ddatblygu eu sgiliau Cymraeg
- I fedru adfyfyio'n rheolaidd ar eu haddysgu
- I gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau tu hwnt i'r addysgu, gan gynnwys gweithio gyda rhieni, gofalwyr, llywodraethwyr a chydweithwyr.
- Lle bo'n bosibl, gofynnwn hefyd i ysgolion hwyluso cyfnod cyfeiriadaeth ac arsylwi 5 diwrnod ychwanegol cyn i'r lleoliad ddechrau i gefnogi gydag ymsefydlu (mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr rhan-amser neu aelodau newydd o staff ar gyfer myfyrwyr cyflogedig)

Ceir amlinelliad o ddisgwyliadau y cyfnod ymarfer dysgu ar gyfer y ddau lwybr isod

# Y Llwybr Rhan Amser

## Gofynion y Rhaglen




***Ffigur 4: Strwythur y Llwybr Rhan Amser***

Mae'r rhaglen ran-amser wedi'i chynllunio i alluogi myfyrwyr i ymgymryd â'u hastudiaethau academaidd a'r profiadau ymarfer dysgu ymarfer dros ddwy flynedd ac mewn hyd at ar dri lleoliad.

Y ffocws ym mlwyddyn 1 fydd datblygu'n raddol o arsylwi ar ymarfer eraill, i gynllunio ac addysgu rhannau o wersi, gwersi cyfan ac yna ddilyniannau o wersi. Ym mlwyddyn 2, bydd myfyrwyr yn symud ymlaen i addysgu dilyniannau o wersi dros amser. **Rhaid i'r amser ar ymarfer dysgu gael ei gynyddu'n raddol a'i oruchwylio'n llawn.**


Rhaid i fyfyrwyr gael profiad o addysgu mewn dwy ysgol wahanol. Bydd lleoliadau'n amrywio yn ôl llwybr astudio a lleoliad daearyddol, ynghyd â gallu'r ysgol bartner i gefnogi myfyrwyr. Ein nod yw bod mor

hyblyg a chefnogol â phosibl er mwyn diwallu anghenion ac amgylchiadau myfyrwyr unigol ond mae'n werth nodi y gellir gofyn i fyfyrwyr deithio hyd at awr i'w lleoliadau ymarfer dysgu.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond yn ystod y flwyddyn gyntaf y cynigir opsiwn i fyfyrwyr ymgymryd â lleoliad mewn Ysgol Arbennig. Pan fydd Uned Arbennig neu Uned ADY yn bodoli mewn ysgol brif ffrwd, dylid lleoli athrawon dan hyfforddiant yn nosbarthiadau prif ffrwd yr ysgol. Ni ddylai myfyrwyr dreulio mwy na 20% o'u hamserlenni ymarfer dysgu mewn unrhyw fodiwl mewn Uned Arbennig neu ddarpariaeth ADY. Mae hyn yn unol â rheoliadau CGA ac achrediad y rhaglen

## Gofynion yr Amserlen – Rhan Amser

Bydd yr amserlen yn amrywio dros gyfnod y rhaglen er mwyn helpu athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu eu hymarfer mewn **ffordd fwyfwy annibynnol**, tran'n parhau i gynnig cefnogaeth wrth iddynt ddatblygu ei hymarfer. Dylai amserlenni fodloni gofynion y rhaglen a dylai Tiwtor Cwricwlwm y Brifysgol Agored gytuno arnynt. Bydd angen i amserlenni ymarfer dysgu myfyrwyr rhan-amser i gynnwys amrywiaeth o weithgareddau a chael eu teilwra i ddiwallu anghenion hyfforddi unigol y myfyriwr:




***Ffigur 5: Elfennau'r Ymarfer Dysgu i fyfyrwyr rhan amser***

Nodwch y dull graddedig yr amser addysgu

- **TAR1 - 30-50%**
- **TAR2 - 40-60%**
- **TAR3 – 70-75%**

Fel cymhwyster TAR wedi'i achredu sydd hefyd yn cynnwys astudio ar lefel Meistr, mae'n hanfodol bod gofynion y rhaglen yn cael eu bodloni. Oherwydd y dull graddedig, mae'r amser sydd ei angen ar gyfer gweithgareddau allweddol yn newid trwy gydol y rhaglen, felly rhaid ystyried sut y gall amserlennu ganiatáu ar gyfer hyn. Mae'n bwysig rhoi'r amser cywir i bob gweithgaredd er mwyn cefnogi lles a llwyth gwaith athrawon dan hyfforddiant. Os oes angen cymorth ychwanegol ar y myfyriwr (e.e. drwy'r Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr), efallai y bydd angen i ddyraniadau amser newid. Lle bo'n bosibl,

gofynnwn hefyd i ysgolion hwyluso cyfnod cyfnod sefydlu ac arsylwi o 5 diwrnod ychwanegol cyn i'r lleoliad ddechrau.

Bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr rhan-amser yn cwblhau eu diwrnodau ymarfer dysgu dros 2-3 diwrnod yr wythnos yn ystod pob cyfnod ymarfer dysgu. Mae'n bosibl y bydd rhai'n dewis eu cwblhau mewn bloc. Rhaid i fyfyrwyr blwyddyn dau gwblhau o leiaf 30 o'u 60 o ddiwrnodau mewn bloc. Ystyrir mai diwrnod yw'r nifer arferol o oriau ysgol + amser cyfeiriedig yn eich ysgol. Bydd angen i fyfyrwyr s'n dymuno dechrau eu cyfnodau ymarfer dysgu yn gynt na'r fenest ymarfer dysgu a drefnwyr gael cymeradwyaeth gan y Cydlynydd Ysgol a Chadeirydd y Modiwl. Bydd angen i'r myfyriwr ystyried sut y bydd yn rheoli llwyth gwaith ac yn bodloni'r gofynion asesu. Ni ellir 'symud' diwrnodau ymarfer dysgu rhwng modiwlau. Er y bydd llawer o athrawon dan hyfforddiant yn cydbwyso ymrwymiadau eraill, disgwylir y byddant ar gael am ddiwrnodau llawn yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer staff addysgu. Dylai'r diwrnodau ymarfer dysgu y cytunir arnynt fod yn gyson ac yn gyfleus i'r myfyriwr a'r ysgol. Dros amser, dylent sicrhau bod y myfyriwr yn cael profiad cyflawn o gyfnod neu bwnc fel sy'n ofynnol i gyrraedd safonau SAC. Dylid cytuno ar unrhyw absenoldeb neu wythnosau rhydd ymlaen llaw ac yn unol â pholisi absenoldeb TAR y Brifysgol Agored. **Mae'n ofyniad statudol i fyfyrwyr gwblhau 120 diwrnod dros ddwy flynedd, felly, rhaid i unrhyw ddiwrnodau a gollwyd gael eu cwblhau.**

# Y Llwybr Cyflogedig

## Gofynion y Rhaglen

Mae cefnogi myfyriwr cyflogedig y Brifysgol Agored yn golygu y bydd y myfyriwr cyflogedig yn rhannu ei amser dros ddwy flynedd rhwng cyflawni dyletswyddau'r swydd ac astudio ar gyfer TAR.


Ym Mlwyddyn 1, bydd y myfyriwr cyflogedig yn treulio tua hanner yr amser yn cyflawni gweithgareddau TAR penodol ac yn astudio ar-lein (yn hytrach na threulio diwrnodau wyneb yn wyneb mewn prifysgol). Yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd ar gael i gyflawni dyletswyddau'r swydd. Rhaid i'r amser ymarfer dysgu TAR gael ei **gynyddu'n raddol** a'i **oruchwylio'n llawn**. Bydd myfyrwyr hefyd yn mynychu ail ysgol, a bydd angen i ysgolion drefnu eu ryddhau'r ar gyfer hynny, am gyfnod o chwe wythnos ym mis Mehefin a mis Gorffennaf, ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf.

Yn yr ail flwyddyn, mae'n bosibl y bydd myfyrwyr cyflogedig yn addysgu'n annibynnol hyd at **70%** o'r amserlen yn eu cyfnod cynradd neu bwnc uwchradd. Bydd ein Tiwtoriaid Cwricwlwm yn gweithio gyda phob ysgol i gytuno ar amserlen sy'n cyd-fynd â strwythur yr ysgol yn ogystal â bodloni gofynion achredig y rhaglen TAR.

**Mae'n bosibl y bydd y dull graddol hwn yn golygu bod angen i fyfyrwyr cyflogedig, sydd wedi arfer â gweithio'n annibynnol yn eu rolau, newid eu meddylfryd.** Mae'r gofynion ar gyfer SAC yn wahanol

i'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, felly bydd llawer i'w ddysgu o hyd, er y bydd ganddynt gyfoeth o brofiad i'w helpu ar y daith hon.

Fel cymhwyster TAR achrededig, sydd hefyd yn cynnwys astudiaeth ar lefel Meistr, mae'n hanfodol sicrhau fod gofynion y rhaglen yn cael eu bodloni. Oherwydd y dull graddedig, bydd yr amser sydd ei angen i gyflawni gweithgareddau allweddol yn newid drwy gydol y rhaglen, felly bydd angen i ysgolion ystyried yn ofalus sut y gall yr amserlen ddarparu ar gyfer hyn. Mae'n bwysig neilltuo'r amser cywir ar gyfer pob gweithgaredd er mwyn cefnogi llesiant a llwyth gwaith yr athro dan hyfforddiant. Os bydd angen cymorth ychwanegol ar y myfyriwr (e.e. drwy'r Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr), mae'n bosibl y bydd angen newid yr amser a neilltuwyd. Rhennir amser y myfyriwr bob wythnos yn ystod oriau ysgol yn dri phrif faes gweithgarwch (Ffigwr 6), gyda'r nod o ddarparu cefnogaeth i gyflawni SAC a chydbwyso gofynion llwybr cyflogedig manwl gywir.





***Ffigur 6*: Prif weithgareddau myfyrwyr cyflogedig – noder mai at ddibenion dangosol yn unig y mae'r ffigur hwn, ac nid yw'n arwydd o'r amser a neilltuir i bob gweithgaredd.**

**Amser Astudio Ar-lein Wedi'i Warchod** - rhaglen ddysgu o bell a chyfunol yw TAR y Brifysgol Agored. Yn lle sesiynau addysgu wyneb yn wyneb ar gampws prifysgol, bydd angen i fyfyrwyr cyflogedig gael amser i gwblhau'r unedau astudio ar-lein. **Nid yw hyn yr un peth ag amser CPA, a ddylai gael ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.** Mae neilltuo amser wedi'i warchod ar gyfer y gwaith hwn yn bwysig iawn wrth gefnogi myfyrwyr i integreiddio theori ac ymarfer. Byddant hefyd yn cymryd rhan mewn seminarau ar-lein byw gyda'r nos bob pythefnos gyda'u Tiwtor Cwricwlwm.

**Dyletswyddau Cyflogaeth** – Y gwaith a wneir gan y myfyriwr cyflogedig fel un o gyflogeion yr ysgol ym mlwyddyn 1. Mae'n bosibl y bydd hyn yr un peth â rôl flaenorol neu'n ymwneud â rôl newydd. Dylai'r holl ddyletswyddau adlewyrchu dyletswyddau athro heb gymhwyso neu gynorthwyydd addysgu ac addysgu yn yr ysgol.

**Ymarfer Dysgu** – Dyma'r amser a neilltuir i weithgareddau TAR yn yr ysgol er mwyn helpu myfyrwyr i gyflawni dangosyddion SAC y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.




***Ffigur 7: Elfennau Ymarfer Dysgu ar gyfer Athrawon Dan Hyfforddiant Cyflogedig***

# Gofynion yr Amserlen - Cyflogedig

Dros y ddwy flynedd, bydd angen amserlen ychydig yn wahanol ar gyfer pob athro dan hyfforddiant er mwyn cyd-fynd gyda'r dull graddol o hyfforddi ac addysgu. Rydym hefyd yn cynnig amrywiadau dewisol yn TAR2 er mwyn i chi allu teilwra'r trefniadau i ddiwallu anghenion hyfforddi'r myfyriwr cyflogedig.

Yn ystod pob wythos, mae nifer penodol o ddiwrnodau'n cael eu neilltuo i wahanol weithgareddau. Mae diwrnod yn cyfateb i'r nifer arferol o oriau ysgol + amser cyfeiriedig yn eich ysgol. Ac eithrio amser astudio, y dylid ei gymryd mewn blociau o hanner diwrnod o leiaf, gellir integreiddio gweithgareddau drwy gydol yr wythnos.


| | Dyletswyddau Cyflogaeth | Ymarfer Dysgu | Astudio |
|---|---|---|---|
| **TAR 1**<br>**Hydref – ½ tymor Chwefror** | 2.5 diwrnod | 1.5 diwrnod | 1 diwrnod |
| **TAR 2**<br>**½ tymor Chwefror - Mai** | 2.5 diwrnod<br>Dewisol: 2 ddiwrnod | 2 ddiwrnod<br>Dewisol: 2.5 diwrnod | ½ diwrnod |
| **Ail Brofiad Ysgol**<br>**Mehefin - Gorffennaf** | Arweiniol/<br>Cysylltiol: 1<br>Cyflogi: 0 | Arweiniol/Cysylltiol – 3<br>Cyflogi - 4 | 1 diwrnod |
| **TAR3 (Blwyddyn 2)**<br>**Medi - Mai** | Athro heb gymhwyso: 3.5 diwrnod | 1 diwrnod | ½ diwrnod |

Noder y dull graddol o ymdrin ag amser addysgu

- **TAR1 - 30-50%**
- **TAR2 - 40-60%**
- **TAR3 – 70%**

# Blwyddyn 1 – Gofynion TAR 1 - Cyflogedig


Bwriedir i'r cyfnod hwn gefnogi myfyrwyr i ymgyfarwyddo â chyd-destun yr ysgol. Mae'n debygol y bydd yn canolbwyntio ar arsylwi i ddechrau, gan symud ymlaen i addysgu fel tîm, arwain rhannu o wersi a chyflwyno gwersi cyfan erbyn diwedd y modiwl. **Ar gyfer myfyrwyr cyflogedig ym mlwyddyn 1, rhaid i'r Mentor neu'r athro dosbarth oruchwylio'r amser ymafer dysgu bob amser.**




***Ffigur 8: Gofynion yr amserlen ar gyfer myfyrwyr cyflogedig TAR 1***

# Blwyddyn 1 – Gofynion TAR 2 - Cyflogedig


Mae hwn yn gyfnod o atgyfnerthu lle y caiff athrawon dan hyfforddiant eu cefnogi i ddechrau cyfnodau wedi'u goruchwylio o addysgu estynedig, gan symud ymlaen o addysgu gwersi unigol i addysgu dilyniannau estynedig o wersi. Erbyn diwedd y tymor, gall **rhai** o'r gwersi hyn ddechrau cael eu haddysgu'n annibynnol.




***Ffigur 9: Gofynion yr amserlen ar gyfer myfyrwyr cyflogedig TAR 2***

# Blwyddyn 1 – Trefniadau Dewisol (ar ôl y Pasg) - Cyflogedig

Ar ôl gwyliau'r Pasg hyd at fis Mai, mae'n bosibl y bydd myfyriwr cyflogedig sy'n gwneud cynnydd da (Ar y Trywydd iawn gyda sawl maes Cryfder neu'n Rhagori ar Ddisgwyliadau) ymgymryd â llai o ddyletswyddau fel rhan o'i swydd er mwyn cyflawni mwy o amser addysgu TAR yn ystod ymarfer dysgu, gan gynnwys dechrau addysgu'n annibynnol. Bydd angen i'r Mentor barhau i gynnal arsylwadau anffurfiol ar wersi bob wythnos, gan gynnwys monitro cynlluniau gwersi'n ofalus.




***Ffigur 10: Newidiadau ychwanegol dewisiol i'r amserlen ar gyfer myfyrwyr cyflogedig TAR 2***

## Ail brofiad ysgol (ABY) – Myfyrwyr cyflogedig yn unig

Ym mlwyddyn 1, bydd angen i fyfyrwyr fynychu ysgol bartner arall. Gelwir hyn yn Brofiad Ail Ysgol ac mae'n disgyn yn **hwyr o fewn tymor yr haf** (am 6 wythnos rhwng Mehefin a Gorffennaf). Mae'n bosibl y bydd angen i fyfyrwyr deithio hyd at awr i'r lleoliad ABY, a bydd angen iddynt gadarnhau eu bod yn deall y gofyniad hwn pan fyddant yn derbyn y cynnig i ymuno â'r cwrs. Mae'n **ofyniad statudol** i fyfyrwyr gael profiad addysgu mewn dwy ysgol wahanol. Caiff lleoliadau eu trefnu gan Swyddfa'r Bartneriaeth TAR a bydd ysgolion yn cael gwybod tua 4-6 wythnos cyn y lleoliad. Bydd y profiad hwn yn rhan o'u cyfnod pontio i'r ail flwyddyn ac mae'n gyfle i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu eu haddysgeg o fewn cyd-destun newydd. Yn lleoliad ar ABY, dylid eu trin yr athrawon dan hyfforddiant yn yr un ffordd ag unrhyw fyfyriwr TAR arall, ac ni fydd yr athrawon dan hyfforddiant yn ymgymryd ag unrhyw rôl gyflogwr yn yr ABY.

**Noder na ellir cwtogi ail brofiad ysgol statudol na chytuno i fyfyriwr beidio â'i gwblhau.** Rhaid i'r ysgol ystyried goblygiadau hyn o ran trefniadau staffio. Mater i'r ysgol fydd ariannu a gwneud unrhyw drefniadau cyflenwi angenrheidiol ar gyfer myfyrwyr yn ystod y cyfnod hwn. Noder na allwn gynnig myfyrwyr yn eu lle.

Noder y bydd statws partneriaeth yr ysgol gyflogi â'r Brifysgol Agored yn dylanwadu ar nifer y diwrnodau y bydd yr athro dan hyfforddiant yn treulio yn yr Ail Brofiad Ysgol. Bydd angen ystyried hyn a bydd

angen i'r ysgol wneud trefniadau cyflenwi ar gyfer y myfyriwr cyflogedig yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd angen i athrawon dan hyfforddiant gysylltu ag ysgol eu hail brofiad ysgol cyn y lleoliad i drefnu cyflwyno eu hunain a threfnu amser i gwrdd i drafod gofynion yr amserlen. Byddem yn annog ysgolion cyflogi ac ABY gysylltu â'i gilydd lle y bo angen i drafod unrhyw anghenion penodol o ran amserlennu cyn y lleoliad (cyn hanner tymor mis Mai).

**Yr hyn a ddisgwylir ar gyfer y lleoliad ABY hwn:**


- Bydd myfyrwyr yn parhau i gael eu cefnogi gan Fentor ac i gael sesiwn fentora wythnosol fel rhan o'r amserlen
- Bydd amserlenni myfyrwyr yn eu galluogi i gwblhau eu Gweithgareddau Ymarfer Dysgu ac i fedru arsylwi
- Caiff athrawon dan hyfforddiant eu **goruchwylio bob amser.** Er y bydd gan fyfyrwyr cyflogedig brofiad helaeth yn eu hysgol gyflogi ac efallai y byddant yn gweithio tuag at addysgu'n annibynnol, athro dan hyfforddiant fyddant yn y lleoliad hwn yn y bôn ac nid un o gyflogeion yr ysgol ac, felly, dylent gael eu cefnogi yn yr un ffordd ag y byddai unrhyw athro dan hyfforddiant arall ar raglen AGA.
- Bydd Mentoriaid yn cwblhau arsylwadau anffurfiol rheolaidd ar wersi er mwyn helpu'r myfyriwr i wneud cynnydd, a byddant yn cwblhau un Adolygiad Ymafer Dysgu hanner fordd trwy'r lleoliad.

- Bydd y Cydlynydd Ysgol yn cefnogi dysgu proffesiynol ehangach y myfyriwr ac yn cydgysylltu er mwyn nodi unrhyw feysydd i'w datblygu yn erbyn y safonau proffesiynol a nodwyd yn PDP y myfyriwr.
- Bydd y Cydlynydd Ysgol yn cefnogi'r Mentor a'r myfyriwr i gwblhau Adolygiad Ymarfer Dysgu lle y bo angen.

**Noder: Os bydd angen eglurhad arnoch ynglŷn â statws partneriaeth eich ysgol gyflogi a'r Brifysgol, cysylltwch â Swyddfa TAR Cymru TAR-Cymru@open.ac.uk yn uniongyrchol**


# Disgwyliadau a Gofynion Ail Brofiad Ysgol ar gyfer Ymarfer Dysgu - Cyflogedig

Os oes gan yr ysgol statws Ysgol Gyflogi:




***Ffigur 11: Disgwyliadau o ran amserlen Ysgol Gyflogi ar gyfer Ail Brofiad Ysgol***


Os oes gan yr ysgol statws Ysgol Gysylltiol neu Ysgol Arweiniol:




***Ffigur 12: Disgwyliadau o ran amserlen Ysgol Gysylltiol neu Ysgol Arweiniol ar gyfer Ail Brofiad Ysgol***

# Blwyddyn 2 – gofynion TAR 3 - Cyflogedig

Cynhelir y modiwl lefel Meistr hwn dros ail flwyddyn gyfan y rhaglen. Ffocws y modiwl yw **annibyniaeth.** Ar yr amod bod myfyrwyr yn gwneud y cynnydd sy'n ofynnol, gallant ddechrau cyfnod o ymarfer dysgu annibynnol, gan gymryd cyfrifoldeb am ddosbarth(iadau) eu hunain.




***Ffigur 13: Gofynion yr amserlen ar gyfer myfyrwyr cyflogedig TAR 3***

Dylai Cydlynwyr Ysgol a Mentoriaid drafod yn uniongyrchol gyda'r athrawon dan hyfforddiant i ganfod pa mor hyderus ydynt wrth gynyddu'r amser addysgu, **gan y dylid gwneud hyn ar sail unigol** mewn ymateb i ddull addysgu graddedig yr athro dan hyfforddiant.

Dylai Tiwtoriaid Cwricwlwm fwrw golwg dros amserlenni er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y rhaglen ac yn diwallu anghenion yr athro dan hyfforddiant unigol.

# Gweithgareddau Ymarfer Dysgu (GYD)


Trosolwg o’r disgwyliadau – holl fyfyrwyr

Dylai athrawon dan hyfforddiant gyfeirio at y ddogfen ‘Gweithgareddau Ymarfer Dysgu’, sydd ar gael ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol.

<table>
<tr><th></th><th>Modiwl</th><th>GYD Parhaus</th><th colspan="2">Disgwyliad</th><th>Gweithgareddau Strwythuredig</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Blwyddyn 1</td><td>TAR1</td><td rowspan="2">Arsylwad â phwyslais penodol<br>Profiad addysgu â phwyslais penodol<br>Cynllunio a gwerthuso<br>Adfyfyrio gyda'r Mentor</td><td colspan="2">Defnydd disgwyliedig o'r canlynol:<br>Cynllun a gwerthusiad gwers unigol y Brifysgol Agored<br>Disgwylir hyn ar gyfer pob gwers</td><td>1 – Dod i adnabod ysgol(ion) / dosbarth(iadau)<br>2 – Cysgodi disgyblion<br>3 – Cynllunio am nôl<br>4 – Archwilio’r pedwar diben fel sbardunau ar gyfer profiadau dysgwyr<br>5 – Astudiaeth o wers: Ffocws ar gwestiynu</td></tr>
<tr><td>TAR2</td><td colspan="2">Cyfuniad o'r canlynol: Cynlluniau a gwerthusiadau gwersi unigol y Brifysgol Agored Cynllun a gwerthusiad dilyniant o wersi y Brifysgol Agored Disgwylir hyn ar gyfer pob gwers/dilyniant</td><td>6 – Deall Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>7 – Cydgysylltu â rhieni a gofalwyr<br>8 – Astudiaeth o wers: Datblygu egwyddor addysgegol</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td><u>GYD cyn / cynnar</u> (Blwyddyn 2 yn unig)</td><td><u>GYD Parhaus</u></td><td><u>Disgwyliad</u></td><td>Gweithgareddau Strwythuredig</td></tr>
</table>

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn 2** | **TAR3** | Diogelu<br>Diogelu data<br>Ymgyfarwyddo â'r ysgol bartner<br>Proffil y dosbarth | Arsylwad â phwyslais penodol<br>Profiad addysgu â phwyslais penodol<br>Cynllunio a gwerthuso<br>Adfyfyrio gyda'r Mentor | **Dewis o'r canlynol:**<br>Cynlluniau a gwerthusiadau gwersi unigol y BA<br>Cynllun dilyniant o wersi y BA<br>Ffurflen werthuso wythnosol y BA<br>Cynllunio gwersi yn yr ysgol a ffurflenni gwerthuso gwersi<br><br>Disgwylir cynlluniau a gwerthusiadau gwersi y Brifysgol Agored ar gyfer arsylwadau ffurfiol<br>Disgwylir i gynlluniau a gwerthusiadau adlewyrchu'r wythnos gyfan | Cynllunio â phwyslais penodol ar gyfer dau ddysgwr ag anghenion gwahanol<br>Paratoi ac amlinellu Astudiaeth ar Raddfa Fach<br>Gwybodaeth ar waith – defnyddio data<br>Astudio Gwers/Ymchwil ar raddfa fach: cyflwyno canfyddiadau<br>Adolygu cynnydd |

Drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau, caiff myfyrwyr y cyfle i ddwyn ynghyd y cysyniadau a'r theorïau a astudiwyd ganddynt er mwyn deall sut y gellir eu cymhwyso'n ymarferol yn yr ysgol. Maent yn cysylltu'n ôl â'r astudiaeth ar-lein ac ymlaen i'r tasgau asesu. Mae'r ATM ym Mlwyddyn 1 yn uniongyrchol gysylltiedig ag un o'r tasgau GYD hyn. Diben y gweithgareddau yw helpu myfyrwyr i gysylltu theori ac ymarfer a gwneud yn siŵr eu bod yn achub ar y cyfleoedd i ddysgu (**Ffigur 14**). Ystyrir bod y tasgau GYD yn orfodol a dylai athrawon dan hyfforddiant ddefnyddio'r **Templed Profiadau Proffesiynol** a geir yn y PDP i gofnodi eu cynnydd yn eu herbyn. Dylid storio'r rhain ar PDP yr athro dan hyfforddiant. Yn ddelfrydol, dylid eu cyflawni yn y drefn y cânt eu cyflwyno er mwyn cefnogi datblygiad parhaus yr athro dan hyfforddiant, a dylent gael eu trafod a'u cefnogi gan y Mentor.





***Ffigur 14: Nodau a bwriadau Gweithgareddau Ymarfer Dysgu***

**Noder:** Disgwylir y bydd athrawon dan hyfforddiant yn cwblhau pob Gweithgaredd Ymarfer Dysgu mewn modd rhagweithiol, ond mae'n bosibl y bydd angen help arnynt i gwblhau tasgau penodol sy'n gysylltiedig â pholisi neu ymarfer ysgol gyfan. Gofynnir i Fentoriaid a Chydlynwyr ysgolion i gynorthwyo â'r tasgau ac i gefnogi athrawon dan hyfforddiant yn ôl yr angen. Y gobaith yw y bydd dogfen Gweithgareddau Ymarfer Dysgu , sydd ar gael ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol, yn ateb unrhyw ymholiadau yn

ymwneud â chwblhau'r tasgau hyn. Dylai myfyrwyr fanteisio ar sgwrs y Fforwm i gael rhagor o gymorth yn y maes hwn.


## Cefnogi elfen astudio gwersi Gweithgareddau Ymarfer Dysgu ac astudiaeth graddfa fach

Amlinellir y cyfle i astudio gwersi â ffocws allweddol yn y Gweithgareddau Ymarfer Dysgu ar gyfer Blwyddyn 1 a'r astudiaeth ar raddfa fach ym Mlwyddyn 2. Dull strwythuredig o gynllunio ac arsylwi cydweithredol yw astudio gwersi. Caiff ei wneud gan grwpiau o weithwyr proffesiynol yn cydweithio yn yr un amgylchedd, ac mae'n cefnogi dysgu proffesiynol yn yr ysgol. Y gobaith yw y caiff athrawon dan hyfforddiant y cyfle i astudio gwersi gyda'u Mentor, neu weithiwr cyfatebol fel 'triadau', lle mae athrawon yn cynllunio ar y cyd ac yn arsylwi ar ei gilydd yn addysgu.  Caiff gwersi eu hastudio mewn modd cydweithredol rhwng y Mentor a'r myfyriwr. Ceir trosolwg o'r broses yn Ffigur 15**.**




***Ffigur 15: Trosolwg o'r cylch astudio gwersi***

Ar y cyd â chymorth y Mentor, bydd yr athro dan hyfforddiant hefyd yn cael budd o gyfranogiad y tiwtor cwricwlwm drwy'r seminarau ar-lein, fel a ddangosir yn **Ffigur 16.** Ym Mlwyddyn 2, bydd myfyrwyr yn ymgymryd ag astudiaeth ar raddfa fach a bydd y Mentor yn cefnogi'r myfyrwyr i ddatblygu maes pwnc i ymchwilio iddo.




***Ffigur 16: Strwythur cymorth ar gyfer astudio gwers***

# Cefnogi myfyrwyr AGA: Trosolwg o'r disgwyliadau

Rôl y mentor yw helpu'r myfyriwr i gynllunio a gwerthuso. O Hydref i Chwefror ym mlwyddyn 1, bydd hyn yn golygu cydgynllunio segmentau o wersi, gan arwain at gynllunio gwersi llawn yn fwy annibynnol erbyn diwedd TAR1. O Chwefror ymlaen, bydd hyn yn golygu helpu myfyrwyr i gynllunio dilyniannau o wersi yn ogystal â rhannu dulliau cynllunio tymor canolig a hirdymor yr ysgol. Ym mlwyddyn 2, bydd hyn yn golygu helpu myfyrwyr i gynllunio ar gyfer addysgu'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb dros staff cymorth a'u rôl yn y gwersi.

Drwy gydol y flwyddyn,  bydd mentoriaid yn cwrdd ag athrawon dan hyfforddiant yn rheolaidd i gynnig cymorth ac adborth ac i bennu targedau CAMPUS er mwyn helpu i asesu cynnydd tuag at gyrraedd y Safonau Proffesiynol ar gyfer SAC. Bydd angen iddynt gwblhau dogfennaeth allweddol y Brifysgol Agored a nodir yn y canllaw hwn erbyn y dyddiadau cyflwyno a nodir ar y **Rhestr Wirio Dyddiadau Allweddol.**

Dylai Cydlynwyr Ysgol gefnogi mentoriaid yn eu rôl yn ogystal â rhoi cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu eu gwybodaeth broffesiynol ehangach trwy gymryd rhan mewn hyfforddiant ysgol gyfan, datblygu a sesiynau AGA. Maent yn gyfrifol am gynnal arsylwadau gwersi ffurfiol a byddant yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd Adolygu Ymarfer rheolaidd i gynnig mewnbwn i asesiad o gynnydd yr athro dan hyfforddiant tuag at SAC. Mae'n hanfodol bod Cydlynwyr Ysgol yn chwarae rhan weithredol wrth gefnogi'r athro dan hyfforddiant a monitro ansawdd a safon y mentora a ddarperir yn ogystal â'r cynnydd a wneir. Gellir cael gwybodaeth fanylach am y rôl hon yn y canllaw i Gydlynwyr Ysgol ar wefan y Bartneriaeth.

Dylai staff ysgol fynd i wefan y Bartneriaeth ar gyfer yr holl ddogfennau a deunyddiau allweddol.

# Datblygiad a Chymorth Mentor

**Gellir amlinellu'r cymorth sydd ar gael i fentoriaid fel a ganlyn:**

Darperir hyfforddiant ffurfiol gan y Brifysgol mewn digwyddiadau briffio yn nhymor yr Hydref a disgwylir presenoldeb gan yr holl Fentoriaid a Chydlynwyr ysgol newydd a phresennol.

Mae'r **Canllaw ar Fentora** hefyd ar gael ar wefan y Bartneriaeth. Mae ei ffocws ar ddatblygu sgiliau a dulliau mentora ac fe'i hysbysir gan ymchwil sy'n gysylltiedig â dulliau addysgeg. Rydym hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fentoriaid ymgymryd â datblygiad proffesiynol ffurfiol trwy gwblhau modiwl ar-lein Meddylfryd Mentora y Brifysgol Agored. Bydd sesiwn galw heibio Cymorth Dysgu Proffesiynol wythnosol ar gael trwy ddolen TEAMS ar wefan y Bartneriaeth bob dydd Llun am 3.45-4.15yp ar gyfer unrhyw gymorth pellach neu arweiniad sydd ei angen trwy gydol y flwyddyn. Gall Tiwtoriaid Cwricwlwm wahodd Mentoriaid i fynychu cyfarfod 1:1 cychwynnol gyda'u hathro dan hyfforddiant yn gynnar ym Mlwyddyn 1 a threfnu iddynt fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol yn ôl yr angen drwy gydol y rhaglen.

## Ble ydw i'n dod o hyd? Pwy ddylwn i ofyn?

Mae canllawiau manylach ar ddogfennau ategol i gyfeirio atynt yn y lle cyntaf a gwybodaeth gyswllt allweddol i'w gweld yn y tabl isod:

| **Ymholiadau yn ymwneud â'r canlynol:** | **Dogfennaeth ategol yn y lle cyntaf** | **Cyswllt** |
|---|---|---|
| Ymarfer dysgu, cynnydd ac asesiadau'r myfyriwr, gan gynnwys pryderon | Canllaw ar Ymarfer Dysgu | Tiwtor cwricwlwm (cc Mentor / Cydlynydd ysgol i fewn i'r e-bost) |
| Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr | Canllaw atodol ar Fframwaith Cefnogi Myfyrwyr | Tiwtor cwricwlwm (cc Mentor / Cydlynydd ysgol i fewn i'r e-bost) |
| Dogfennaeth a dyddiadau cyflwyno | Canllaw ar Ymarfer Dysgu<br>Gwefan y Bartneriaeth<br>Rhestr Wirio Dyddiadau Allweddol | |
| Amserlennu a chydymffurfiaeth | Canllaw ar Leoliadau Ymarfer Dysgu | Cydlynydd ysgol |
| Statws ysgol, gwybodaeth am leoliadau myfyrwyr, cyllid, cyfwerthedd, absenoldeb o ymarfer dysgu | | Swyddfa TAR Cymru |
| Ail Brofiad Dysgu (myfyrwyr cyflogedig yn unig) | Canllaw ar Ymarfer Dysgu | Cydlynydd ysgol<br>Nerys Defis (Y Brifysgol Agored) |
| Digwyddiadau datblygu, hyfforddi a sefydlu | Rhestr Wirio Dyddiadau Allweddol<br>Gwefan y Bartneriaeth | Megan Jones (Y Brifysgol Agored) |
| Adolygiad Tiwtor Ymarfer | Canllaw ar Ymarfer Dysgu | Tiwtor ymarfer<br>TY Ysgol Arweiniol sy'n gysylltiedig â'r clwstwr |

| | | |
|---|---|---|
| | | Catharine Bleasdale (Y Brifysgol Agored) |
| Defnyddio IRIS Connect a recordio ymweliad y Tiwtor Ymarfer | Llinell gymorth IRIS Connect: 0333 136 2483<br>E-bost: support@irisconnect.co.uk | Mathew Jones (Y Brifysgol Agored) |
| Tystiolaeth yn erbyn Fframwaith y Gymraeg | Gwefan y Bartneriaeth<br><br>Amgylchedd Dysgu Rhithwir y brifysgol | Tiwtor Cwricwlwm<br>Nia Cole-Jones (Y Brifysgol Agored) |

**Newydd ar gyfer 2023:** Yn ystod y flwyddyn academaidd hon bydd Pwyllgor y Bartneriaeth yn cynnal cyfres o weithgareddau sicrhau ansawdd a gwella a fydd yn cynnwys pob un neu rai o'r canlynol:

- Arsylwi gwers yr athro dan hyfforddiant ar y cyd
- Presenoldeb mewn sesiwn mentor neu sesiwn datblygiad proffesiynol
- Cyfarfod gyda Chydlynydd Ysgol

Bydd y rhain yn ymweliadau wyneb yn wyneb ar gyfer nifer fach o ysgolion i ddechrau ac ni fyddant yn disodli unrhyw strwythurau presennol ar gyfer arsylwi athrawon dan hyfforddiant yn ffurfiol. Y bwriad yw cefnogi ysgolion i ddatblygu eu dealltwriaeth o agweddau unigryw'r Rhaglen a'u cefnogi i wneud dyfarniadau yn erbyn y Safonau ar gyfer SAC ar gyfer eu hathrawon dan hyfforddiant. Cynhelir ymweliadau naill ai gan Diwtor Cwricwlwm y Brifysgol Agored neu Diwtor Ymarfer Arweiniol o un o'n Hysgolion Partner Arweiniol. Cytunir ar ddyddiadau ymweliadau ymlaen llaw gydag ysgolion ac athrawon dan hyfforddiant.

# Sesiynau Mentor

Mae'r sesiwn fentora'n cynnig lle i'r athro dan hyfforddiant gwrdd â'r mentor i feddwl, adfyfyrio, beirniadu, dadansoddi ac archwilio. Mae'n gyfle allweddol i fyfyrwyr ddatblygu a gwerthuso eu dysgu proffesiynol drwy'r cwrs. **Dylai'r rhain fod yn sesiynau wedi'u hamserlennu a'u diogelu, a dylent gael eu cynnal yn wythnosol i fyfyrwyr cyflogedig neu bob 5 diwrnod i fyfyrwyr rhan amser.**


**Er mwyn bod yn effeithiol yn y sesiynau mentora, dylai'r Mentor:**

- sicrhau bod y sesiwn fentora reolaidd yn amser a ddiogelir
- trefnu i'r sesiynau gael eu cynnal mewn man tawel a phreifat
- hwyluso'r defnydd o ddull adfyfyriol
- cefnogi myfyrwyr drwy bennu targedau CAMPUS
- annog a chefnogi'r myfyriwr i ystyried ymarfer yn unol ag astudiaeth ar-lein
- defnyddio'r **Fframwaith Asesu Ymarfer Dysgu** fel yr amlinellwyd
- galluogi'r athro dan hyfforddiant i arwain y drafodaeth, yn enwedig tua diwedd Blwyddyn 1 ac yn ystod Blwyddyn 2
- canolbwyntio ar ystyried tystiolaeth (gan gynnwys cofnodion arsylwi a gwybodaeth gan unrhyw aelodau eraill o staff sy'n gweithio gyda'r athro dan hyfforddiant), adolygu cynnydd, gosod targedau a chreu cynlluniau gweithredu newydd
- caniatáu amser i adfyfyrio ar yr agweddau hynny ar ymarfer sy'n anodd arsylwi arnynt, megis y rhai hynny sy'n ymwneud â chynllunio a gwerthuso gwersi.

Disgwylir y bydd mentoriaid ac athrawon dan hyfforddiant yn cadw cofnod o'r trafodaethau hyn drwy gydol y rhaglen at ddibenion adfyfyrio. Gall hyn fod ar ffurf cofnodlyfr adfyfriol neu lyfr nodiadau o ddewis yr athro dan hyfforddiant. Mae **Matiau Mentor** hefyd ar gael i fentoriaid sy'n amlinellu meysydd allweddol i'w trafod yn ogystal ag awgrymiadau o gwestiynau i gefnogi ac arwain cyfeiriad y rhain.

# Asesu Ymarfer Dysgu – Asesu Cynnydd

Wrth fesur cynnydd athro dan hyfforddiant, mae'n bwysig ystyried y Safonau Proffesiynol mewn modd cyfannol, gan gysylltu'r disgrifyddion â'i gilydd a symud o safon i safon i nodi cysylltiadau mewn ymarfer proffesiynol, yn hytrach na defnyddio'r disgrifyddion fesul un. Gellir defnyddio'r disgrifyddion fel ffordd o archwilio safon ac i gefnogi deialog adfyfyriol â'r athro dan hyfforddiant. Mae'r safonau'n cynnwys pum maes (gweler Ffigur 17), a gallwch ddysgu mwy am bob un drwy Hwb: Safonau proffesiynol




***Ffigur 17: Y pum safon broffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2019b)***

# Defnyddio'r Fframwaith Asesu:

## Barn am gynnydd

Er mwyn cefnogi dyfarniadau, dylai staff gyfeirio at y **Fframwaith Asesu Ymarfer Dysgu** i wneud dyfarniad sy'n 'cyd-fynd orau' ar bob cam o ddatblygiad yr athro dan hyfforddiant. Mae'n bwysig cofio ei fod yn gwrs dwy flynedd sy'n hyrwyddo caffaeliad graddedig o sgiliau dros amser, a bydd cynnydd athrawon dan hyfforddiant yn unigol i'w profiad a'r llwybr y maent yn ei ddilyn ar y Rhaglen. Dylid rhoi barn ar gynnydd yn erbyn y Safonau gan ddefnyddio'r canllawiau canlynol:

- **Rhagori ar Ddisgwyliadau (RhaDd):** Mae'r dangosyddion yn gryf a chadarn, a'r gwaith eisoes ar lefel uwch na'r disgwyl ar gyfer SAC.


- **Ar y Trywydd Iawn gyda sawl Maes Cryfder (ATgCh):** Mae'r dangosyddion yn gryf a chadarn, a'r gwaith eisoes yn dangos cryfderau mewn sawl maes. Mae datblygiad parhaus yn debygol o arwain at gyrraedd safon sy'n well na'r disgwyl ar gyfer SAC.
- **Ar y Trywydd Iawn (AT):** Mae'r dangosyddion yn gadarnhaol. Mae datblygiad parhaus yn debygol o arwain at gyrraedd y safon ddisgwyliedig ar gyfer SAC.
- **Ddim eto ar y Trywydd Iawn (DdeT):** Mae agweddau yn peri pryder lle bydd angen datblygiad a gwelliant sylweddol i gyflawni'r lefel a ddisgwylir ar gyfer SAC.

Noder, bydd dewis Ddim eto ar y Trywydd Iawn yn dangos nad yw athrawon dan hyfforddiant yn bodloni'r Safonau ar gyfer SAC yn ôl y disgwyl a bydd yn arwain at roi'r Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr ar waith. Dylid nodi myfyrwyr yr ystyrir eu bod 'Ddim ar y trywydd iawn eto' cyn gynted â phosibl er mwyn gallu rhoi cymorth unigol ar waith. Gellir gwneud hyn ar unrhyw adeg trwy gysylltu â Thiwtor Cwricwlwm yr athro dan hyfforddiant a / neu drwy fynychu ein sesiwn galw heibio Cymorth Ymarfer Dysgu wythnosol ar ddydd Llun o 3.45-4.15yp. Ceir mynediad i hwn trwy ddolen TEAMS ar wefan y Bartneriaeth

# Adolygu Cynnydd Myfyrwyr

Bydd cynnydd athrawon dan hyfforddiant tuag at y Safonau ar gyfer SAC yn cael ei adolygu ar 3 phwynt allweddol yn ystod y flwyddyn. Bydd arsylwadau gwersi ffurfiol, trafodaethau mewn sesiynau mentor a Ffurflenni Adolygu Ymarfer yn bwydo i mewn i'r pwyntiau adolygu hyn a chânt eu cyfeothogi gan gyfarfodydd

adolygu wedi'u hamserlennu yn ystod y flwyddyn. Nodir tystiolaeth o gynnydd yn erbyn y Safonau ar gyfer SAC yn yr Adroddiad Ymarfer Dysgu diwedd blwyddyn. Amlinellir dyddiadau ar gyfer olrhain cynnydd athrawon dan hyfforddiant ar ein Rhestrau Gwirio Dyddiadau Allweddol. Mae'r holl ffurflenni ar gael ar wefan y Bartneriaeth ac ar ôl eu cwblhau dylid eu rhannu ag athrawon dan hyfforddiant i'w lanlwytho i'w PDP fel tystiolaeth ffurfiol. Amlygir y broses hon gan y diagram isod




***Ffigur 18: Pwyntiau Adolygu Cynnydd Myfyrwyr***

Amlinellir rolau a chyfrifoldebau **dros y flwyddyn** ar gyfer disgwyliadau gwaith papur ffurfiol yma:

| | |
|---|---|
| **Mentor** | • Ffurflen Arsylwad Gwers ffurfiol (x2)<br>• Cwblhau ffurflen Adolygu Ymarfer (x1) *<br>• Presenoldeb mewn cyfarfod Adolygu Ymarfer gyda'r TY (x2)<br>• Cwblhau Adran A o'r Adroddiad Dysgu Ymarfer (x2) |
| **Cydlynydd Ysgol** | • Ffurflen Arsylwad Gwers ffurfiol (hefyd wedi'i recordio i'r TY ei hadolygu) (x2)<br>• Presenoldeb (lle bo modd) mewn cyfarfod Adolygu Ymarfer gyda'r TY (x2)<br>• Cwblhau Adran B o'r Adroddiad Ymarfer Dysgu (x1) |
| **Tiwtor Ymarfer** | • Adborth Arsylwad Gwers ffurfiol o wers a recordiwyd (x2)<br>• Cwblhau ffurflen Adolygu Ymarfer (x1)<br>• Cydlynu cyfarfod Adolygu Ymarfer gyda'r Mentor/ CY a'r athro dan hyfforddiant (x2)<br>• Cwblhau Adran C o'r Adroddiad Ymarfer Dysgu (x1) |

**Sylwer,ar gyfer Mentoriaid sy'n cefnogi myfyrwyr Cyflogedig yn eu Hail Brofiad Ysgol, bydd gofyn llenwi ffurflen Adolygu Ymarfer ychwanegol fel rhan o'r lleoliad pwrpasol hwn. Ni fydd hyn yn berthnasol i bob Mentor*

**Nodwch:** Dylid rhannu pob ffurflen wedi'i chwblhau â'r athro dan hyfforddiant fel y gellir eu lanlwytho i'w PDP

| Nodir isod amlinelliad o'r ffurflenni a'r cyfarfodydd sy'n ymwneud ag adolygu cynnydd myfyrwyr: | | |
|---|---|---|
| **Ffurflen Arsylwad Gwers** | **Ffurflen Adolygu Ymarfer** | **Cyfarfod Adolygu Ymarfer** |
| ✓ Ffocws ar Addysgeg o'r Safonau ar gyfer SAC<br>✓ Cwblheir gan Fentoriaid a Chydlynwyr Ysgol<br>✓ Rhoi sylwadau ar ddatblygiad yr athro dan hyfforddiant o'r Safonau Cydweithio, Arloesi, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol ehangach lle bo'n briodol.<br>✓ Dylid hefyd nodi datblygiad sgiliau Cymraeg, cymhwysedd digidol, llythrennedd a rhifedd y myfyriwr a'r disgyblion.<br>✓ Gall Tiwtoriaid Ymarfer ddewis defnyddio'r ffurflen hon i adolygu gwers wedi'i recordio gan yr athrawon dan hyfforddiant ond gallant hefyd ddewis rhoi adborth i fyfyrwyr gan ddefnyddio'r opsiynau sydd ar gael iddynt ar IRIS Connect (ein platfform digidol ar gyfer rhannu recordiadau gwersi). | ✓ Ffocws ar olrhain cynnydd yn erbyn y Safon Addysgeg<br>✓ Gosod targedau CAMPUS<br>✓ Yn digwydd hanner ffordd trwy'r flwyddyn.<br>✓ Cwblheir gan Fentoriaid a Thiwtoriaid Ymarfer yn unig.<br>✓ Bydd angen ffurflen adolygu ychwanegol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant cyflogedig fel rhan o'u Ail Brofiad Ysgol.<br>✓ Nodwch a yw athro dan hyfforddiant yn cael ei ystyried 'Ar y Trywydd Iawn' neu 'Ddim ar y Trywydd Iawn Eto'. Dylai hyn fod mewn perthynas â lle disgwylir i gynnydd athro dan hyfforddiant fod ar unrhyw adeg allweddol yn y cwrs. | ✓ Dilyn ymlaen o'r gwersi a arsylwyd ac yn digwydd unwaith y bydd y Tiwtor Ymarfer wedi adolygu'r wers a gofnodwyd a rennir gyda nhw.<br>✓ Dylai hwyluso deialog broffesiynol sy'n canolbwyntio ar gynnydd yr athro dan hyfforddiant tuag at SAC yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma.<br>✓ Dylai'r Mentor, yr athro dan hyfforddiant a'r Tiwtor Ymarfer fod yn bresennol a lle bo'n bosibl, y Cydlynydd Ysgol. |

| | | |
|---|---|---|
| ✓ Dylid hefyd recordio arsylwad y Cydlynydd Ysgol a'i rannu â Thiwtor Ymarfer yr athro dan hyfforddiant a fydd yn adolygu hyn ac yn ei ddefnyddio i lywio eu hadroddiad eu hunain ar gynnydd. | ✓ Defnyddio'r Fframwaith Asesu Ymarfer Dysgu i arwain penderfyniadau.<br>✓ Dylid trafod pryderon parhaus ynghylch cynnydd athro dan hyfforddiant gyda'r athro dan hyfforddiant i ddechrau cyn ei godi gyda Thiwtor Cwricwlwm y myfyriwr.<br>✓ Pe bai'r angen am ymyrraeth yn cael ei nodi, yna efallai y bydd y Tiwtor Cwricwlwm yn awgrymu gweithredu'r Fframwaith Cefnogi Myfyrwyr (SSF) | |
| **Adroddiad Ymarfer Dysgu** | **Cyfarfod Cynnydd Myfyrwyr** | |
| ✓ Wedi'i gwblhau ar ddiwedd pob blwyddyn ac yn crynhoi cynnydd yr athro dan hyfforddiant yn erbyn pob un o'r Safonau ar gyfer SAC.<br>✓ Bydd Mentoriaid yn Adran A ac yn gosod targedau CAMPUS<br>✓ Cydlynwyr ysgol yn cwblhau Adran B ac yn cymeradwyo ansawdd Adran A<br>✓ Mae Tiwtoriaid Ymarfer yn cwblhau Adran C, yn gosod targedau CAMPUS ac yn cymeradwyo ansawdd yr adroddiad | ✓ Tiwtoriaid Cwricwlwm bydd yn bresennol ac yn rhoi adborth i Gadeiryddion Modiwlau ar gynnydd eu hathrawon dan hyfforddiant tuag at SAC.<br>✓ Bydd yr holl waith papur disgwyliedig yn cael ei adolygu a bydd argymhellion ar gyfer athrawon dan hyfforddiant y bernir eu bod 'Ddim ar y Trywydd Iawn Eto' i symud i'r Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr yn cael eu gwneud yn dilyn y sesiynau hyn.<br><br>Bydd ysgolion yn cael eu hysbysu os bydd gwaith papur ar goll yn effeithio ar allu'r Tiwtor Cwricwlwm i farnu cynnydd yr athrawon dan hyfforddiant yn effeithiol | |

| | |
|---|---|
| ✓ Mae'n bwysig bod terfynau amser ar gyfer cwblhau pob adran yn cael eu bodloni a bod ffurflenni'n cael eu trosglwyddo i'r person perthnasol er mwyn iddynt gael amser i gwblhau eu rhan o'r broses. | |

# Defnyddio IRIS Connect – Adolygiad y Tiwtor Ymarfer

Mae'r rhaglen yn defnyddio IRIS Connect i hwyluso arsylwadau ar wersi. Mae'r llwyfan hwn yn cynnig dull arloesol o gefnogi'r broses o asesu myfyrwyr. Mae hefyd yn golygu y gallwn, fel rhaglen ledled Cymru, alluogi uwch-ymarferwyr ystafell ddosbarth i gyflawni dyletswyddau asesu craidd heb effeithio ar eu rôl arferol. Bydd angen i athrawon dan hyfforddiant recordio eu hunain yn addysgu gwers gyfan ac uwchlwytho’r recordiad hwn i lwyfan diogel IRIS Connect drwy un o ddyfeisiau'r ysgol. Argymhellir yn gryf bod y Cydlynydd Ysgol hefyd yn arsylwi'n ffurfiol i ategu trafodaethau â'r Tiwtor Ymarfer. Adnodd datblygu proffesiynol ac arsylwi ar wersi yn yr ysgolion yw hwn, sydd wedi'i ddylunio'n benodol i ddiwallu anghenion diogelwch a diogelu ysgolion. Dim ond i Thiwtoriaid Ymarfer a myfyrwyr y byddwn yn rhoi trwydded. Dim ond y Tiwtor Ymarfer a enwyd fydd yn gallu gweld y recordiad hwn. Gall wynebau disgyblion gael eu cymylu. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am hyn yma: https://www.irisconnect.com/uk/support/gdpr/

**Noder:** Wrth ymuno â’r rhaglen, bydd ysgolion wedi cael gwybod am y gofyniad i ddefnyddio IRIS Connect i recordio ar gyfer adolygiad y Tiwtor Ymarfer. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, siaradwch â’ch Cydlynydd Ysgol i ddechrau.

# Y Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr (SSF)

Y **Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr** yw'r dull a ddefnyddir i roi cymorth ychwanegol i athro dan hyfforddiant yn ystod y rhaglen TAR. Mae wedi'i ddylunio i gefnogi athrawon dan hyfforddiant:

- A all gael budd o gyfnod o waith â ffocws penodol i unioni un neu fwy o feysydd eu hymarfer sy'n peri trafferth iddynt
- Y gellid cefnogi eu llesiant neu eu gwydnwch
- Sydd â'r potensial i ragori ar lefelau presennol eu cynnydd ac y mae angen cymorth arnynt i wneud hynny

Gall athrawon dan hyfforddiant eu hunain, Tiwtoriaid Cwricwlwm, Cydlynwyr Ysgolion, Mentoriaid a Thiwtoriaid Ymarfer ofyn am gymorth i fyfyriwr neu argymell y dylai gael cymorth drwy'r Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr. Gellir hefyd rhoi'r Fframwaith ar waith yn dilyn adolygiad o gynnydd myfyriwr neu ddeilliannau panel canlyniad modiwl. Fframwaith cymorth anffurfiol yw'r Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr sydd wedi'i ddylunio i gefnogi cynnydd yr athro dan hyfforddiant mewn perthynas â SAC a'i gymhwyster TAR. Nid yw'n disodli dulliau ffurfiol eraill o roi cymorth, fel y polisi Addasrwydd i Ymarfer neu Addasrwydd i Astudio, a all fod yn berthnasol yn dibynnu ar y sefyllfa.

Ceir gwybodaeth fanylach am broses y Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr yn nogfen ganllaw'r Fframwaith ar Wefan y Bartneriaeth. Dylai myfyrwyr sy'n dymuno defnyddio'r broses hon gysylltu â'u Tiwtor Cwricwlwm am arweiniad.

# Sut i gwblhau'r Adroddiad Ymarfer Dysgu (AYD)

Ceir copi o'r Adroddiad Ymarfer Dysgu ar Wefan y Bartneriaeth. Bydd angen lawrlwytho'r ddogfen a'i chadw er mwyn ei golygu. **Dim ond Adran A o'r adroddiad y dylai Mentoriaid ei chwblhau.** Pan fyddant wedi gwneud hynny, dylent hysbysu'r C**ydlynydd Ysgol a fydd yn cwblhau Adran B.** Dylid trosglwyddo hwn wedyn i'r Tiwtor Ymarfer a fydd yn cwblhau Adran C.

Wrth gwblhau'r adroddiad, dylai staff gydnabod cynnydd yr athro dan hyfforddiant yn erbyn y Safonau mewn modd cyfannol, ac asesu a yw'r myfyriwr yn gwneud cynnydd mewn perthynas â'r llwybr a cham astudio ar y cwrs dwy flynedd. Mae'n bwysig cofio bod y cwrs yn hyrwyddo dull addysgu graddol a chynyddol dros gyfnod o ddwy flynedd ac na ddylid cymharu cynnydd athrawon dan hyfforddiant sy'n dilyn llwybr mwy traddodiadol i addysgu.

Wrth gwblhau'r adroddiad, dylai mentoriaid ystyried a chyfeirio at PDP yr athro dan hyfforddiant a thystiolaeth berthnasol a goladwyd gan yr athro dan hyfforddiant. Dylid llunio barn am gynnydd yn erbyn pob un o'r Safonau Proffesiynol yn ogystal â'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Dylai mentoriaid ddefnyddio'r lle gwag a roddir i ychwanegu sylwadau i ategu'r farn os oes angen. Bydd y **Fframwaith Asesu Ymarfer Dysgu** yn helpu mentoriaid i lunio barn fel yr amlinellir uchod.

Mae'n bosibl y bydd mentoriaid am ystyried y cyngor canlynol a rannwyd gan ysgolion partner:

- Ceisiwch osgoi defnyddio termau goddrychol fel da, ardderchog, digonol, ac ati, i ddisgrifio'r ymarfer. Cysylltwch eich sylwadau â'r Fframwaith Asesu, a defnyddiwch 'oherwydd' i egluro pam.
- Tynnwch sylw at rinweddau cadarnhaol a ddangoswyd gan yr athro dan hyfforddiant. Lluniwch sylwadau yn seiliedig ar gamau gweithredu yn hytrach na phersonoliaeth a chydberthynas bersonol, gan gysylltu â'r disgrifyddion er mwyn rhoi ffocws ychwanegol.
- Cofiwch fod dau ddiben i'r ffurflen. Mae angen iddi roi adborth effeithiol i'r athro dan hyfforddiant, ond mae hefyd yn gofnod pwysig o gynnydd yr athro dan hyfforddiant tuag at gyrraedd y Safonau Proffesiynol.
- Dylech gyfarch y myfyriwr yn uniongyrchol ar y ffurflen drwy ddefnyddio 'ti' neu 'chi' yn hytrach nag enw, 'y myfyriwr' neu 'yr athro dan hyfforddiant'.
- Ceisiwch ddefnyddio arddull cryno ond dylech sicrhau eich bod yn cynnwys digon o fanylion ar gyfer cynulleidfa ehangach at ddibenion asesu (e.e. y tiwtor cwricwlwm).
- Sicrhewch fod eich adroddiad wedi'i ysgrifennu mewn da bryd i gael ei gynnwys ym mhortffolio'r athro dan hyfforddiant erbyn y dyddiad cyflwyno.
- Ceisiwch gysylltu eich sylwadau mewn modd cyfannol â'r Safonau, gan ganolbwyntio ar gryfderau ac anghenion datblygu eich myfyriwr. Ceisiwch osgoi cynnig 'datrysiadau' penodol iawn a chul. Yn hytrach,

ystyriwch gyfeirio at ffyrdd ehangach y gall eich athro dan hyfforddiant geisio datrysiad,

**Noder**: Mae'r Adroddiad Ymarfer Dysgu yn elfen orfodol o Asesiad Diwedd Modiwl yr athro ân hyfforddiant, a bydd y tiwtor cwricwlwm yn cyfeirio ato er mwyn asesu gallu'r athro dan hyfforddiant i ennill Statws Athro Cymwysedig. Caiff hefyd ei gwblhau fel rhan o driad o asesiadau gan staff sy'n cefnogi'r athro dan hyfforddiant (fel a ddangosir yn Ffigur 19). Felly, mae'n bwysig bod mentoriaid yn cadw at ddyddiadau allweddol ar gyfer cwblhau'r Adroddiad Ymarfer Dysgu er mwyn helpu'r cydlynydd ysgol a'r tiwtor ymarfer i gwblhau eu hadran o'r ffurflen.

**Adran A**

- Mentor: lawrlwytho'r adroddiad o Wefan y Bartneriaeth.
- Cwblhau Adran A o'r adroddiad, ei arbed a'i rannu gyda'r Cydlynydd Ysgol.

**Adran B**

- Cydlynydd Ysgol: agor yr adroddiad a rannwyd gan y Mentor
- Cwblhau adran B i ddangos cytundeb gyda'r adroddiad, ei arbed a'i rannu gyda'r Tiwtor Ymarfer (hysbyswch eich myfyriwr fod hyn ar waith)
- Bydd angen cwblhau adrannau A a B cyn trosglwyddo'r adroddiad i'r Tiwtor Ymarfer. Cyfeiriwch at y Rhestr Wirio Dyddiadau Allweddol am ddyddiadau terfynol.

**Adran C**

- Tiwtor Ymarfer: agor yr adroddiad. Darllen adrannau A a B. Ystyried tystiolaeth eich hun.
- Cwblhau adran C, arbed a rhannu'r adroddiad gyda'r myfyriwr iddynt lanlwytho i'w PDP.
- Cwblhau adran olaf yr adroddiad cyn y dyddiadau terfynol a nodwyd ar y Rhestr Wirio Dyddiadau Allweddol.

***Ffigur 19: Proses yr Adroddiad Ymarfer Dysgu***

# Sut i asesu datblygiad sgiliau Cymraeg athro dan hyfforddiant?

Drwy gydol y rhaglen, bydd angen i'r athro dan hyfforddiant feithrin sgiliau Cymraeg, yn ogystal â dulliau addysgegol o helpu disgyblion i ddysgu neu wella eu Cymraeg. Bydd arweinydd rhaglen Gymraeg y Brifysgol Agored yn monitro cynnydd yr athro dan hyfforddiant wrth iddynt gwblhau'r modiwl Dysgu Cymraeg perthnasol. Bydd yr arweinydd yn rhoi cymorth i fentoriaid a thiwtoriaid ymarfer ar ffurf sesiynau datblygu ar-lein yn ystod pob modiwl. Bydd yn rhoi cyngor ac arweiniad ynglŷn â sut i helpu'r athro dan hyfforddiant yn y maes hwn, a sut i asesu cymhwysedd yr athro dan hyfforddiant yn y Gymraeg. Bydd angen i fentoriaid adrodd ar gynnydd yr athro dan hyfforddiant, gan ddefnyddio **Fframwaith Cymhwysedd y Gymraeg** Llywodraeth Cymru, sydd ar gael yn Ardal Adnoddau'r Bartneriaeth.

**Dylai hon fod yn farn 'orau', yn seiliedig ar y canlynol:**

- arsylwad rheolaidd ar ymarfer yr athro dan hyfforddiant
- deialog â'r athro dan hyfforddiant yn adfyfyrio ar ei hunanwerthusiad o sgiliau yn awdit y Gymraeg.

**Gofynnir i fentoriaid asesu dwy agwedd:**

- Cymhwysedd yr athro dan hyfforddiant yn y Gymraeg
- Dulliau addysgegol yr athro dan hyfforddiant o helpu disgyblion i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg.

Dylid defnyddio'r Fframwaith i ysgogi adfyfyrio beirniadol gyda'r athro dan hyfforddiant. Mae'n cyd-fynd ag awdit y Gymraeg y mae athrawon dan hyfforddiant yn ei ddefnyddio i olrhain eu cynnydd yn y maes hwn. Bydd angen i fentoriaid asesu sgiliau gwrando, darllen, ysgrifennu a llafaredd athrawon dan hyfforddiant yn unol â'r lefelau o sgìl a ddangosir isod:

**A1 Mynediad**
**A2 Sylfaenol**
**B1 Canolradd**
**B2 Uwch**
**C1 Hyfedredd**

# Atodiad 1: Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Ysgol bartner gyswllt | Ysgolion sy'n cefnogi myfyriwr addysg gychwynnol i athrawon ar y llwybr rhan-amser. |
| Tiwtor Cwricwlwm | Cyflogir gan y Brifysgol Agored yng Nghymru. Yr unigolyn hwn yw eich cyswllt allweddol â'r Brifysgol Agored. Mae'n hwyluso seminarau ar-lein, yn cymedroli fforymau ac yn asesu ATM ac ADM y myfyrwyr. |
| Awdit cymhwysedd digidol | Archwiliad a gwblheir ar ddechrau rhaglen TAR i nodi targedau datblygu. |
| eBortffolio | Cyfuniad o Ffolder Addysgu Personol yr athro dan hyfforddiant a'u Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP). Bydd athrawon dan hyfforddiant yn cyflwyno eBortffolio o dystiolaeth i ddangos eu cynnydd tuag at ddeilliannau rhaglen TAR a'r Safonau ar gyfer SAC. |
| Ysgol gyflogi | Ar gyfer y llwybr cyflogedig, yr ysgol lle y caiff myfyrwyr addysg gychwynnol i athrawon eu cyflogi. Caiff athrawon dan hyfforddiant eu cyflogi ar gyfradd athro heb gymhwyso am ddwy flynedd. |
| Asesiad diwedd modiwl (ADM) | Aseiniad academaidd wedi'i gwblhau ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd ac wedi'i farcio gan Diwtor Cwricwlwm. |
| Cynllun dysgu unigol | Ar ddechrau'r rhaglen, byddwch athrawon dan hyfforddiant yn dechrau datblygu cynllun dysgu unigol. Mae'r cynllun hwn yn dwyn ynghyd eich targedau datblygu o ran gwybodaeth bynciol, cymhwysedd digidol, defnyddio'r Gymraeg (gweler 'awdit y Gymraeg') a chyrraedd y safonau addysgu. |

| | |
|---|---|
| Ysgolion Partner Arweiniol | Ysgolion sy'n aelod o'r Pwyllgor Partneriaeth. Maent yn darparu mewnbwn strategol i'r rhaglen ac maent yn safleoedd dysgu allweddol i fyfyrwyr ar y llwybrau cyflogedig a rhan-amser. Bydd ysgolion partner arweiniol hefyd yn arwain digwyddiadau datblygu a hyfforddi allweddol i Fentoriaid ac yn cynnig cymorth drwy staff a benodwyd yn Diwtoriaid Ymarfer. |
| Mentor | Aelod profiadol o staff yn y pwnc/cyfnod a nodwyd gan yr ysgol. Byddant yn cefnogi ac yn cynghori athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu eu hymarfer addysgu sy'n datblygu ac yn eu cyflwyno i gyd-destun ehangach a staff yr ysgolion. |
| Sesiwn fentora | Sesiwn awr o hyd a amserlennir rhwng mentoriaid ac athrawon dan hyfforddiant. Caiff ei chynnal bob wythnos i fyfyrwyr cyflogedig a bob pum diwrnod i fyfyrwyr rhan amser. Dylai fod yn unigryw ac yn bersonol i anghenion yr athro dan hyfforddiant. |
| Modiwlau | Mae dau fodiwl. Gelwir y flwyddyn gyntaf yn Fodiwl EE306 sy'n cael ei rannu'n ddwy ran: TAR1 a TAR2 a'r ail flwyddyn yw Modiwl EE806 y cyfeirir ato hefyd fel TAR3. Rhaid i athrawon dan hyfforddiant lwyddo yn yr asesiadau academaidd a bodloni'r gofynion ymarfer dysgu i lwyddo ym mhob modiwl ac, felly, llwyddo yn y cymhwyster. |
| Fforymau ar-lein | Fforymau ar-lein, anghydamseredig lle bydd myfyrwyr yn cwblhau gweithgareddau, yn rhannu profiadau, yn gofyn i'w gilydd a'r Tiwtor Cwricwlwm am gyngor, ac yn rhannu adnoddau. |
| Seminarau ar-lein | Seminarau pwnc-benodol a chyfnod penodol a arweinir gan y Tiwtor Cwricwlwm. Seminarau rhyngweithiol 'byw' yw'r rhain, sy'n cysylltu myfyrwyr ledled Cymru. Cânt eu recordio os byddwch yn dymuno ystyried y pwyntiau a wnaed ymhellach. |

| | |
|---|---|
| Unedau astudio ar-lein | Mae gan y llwybrau Cynradd ac Uwchradd unedau astudio ar-lein gyda deunyddiau astudio, gweithgareddau, seminarau ar-lein a gweithgareddau ymarfer dysgu i'w hastudio a'u cwblhau. Dylai myfyrwyr sydd ar y llwybr TAR rhan amser anelu at gwblhau'r astudiaeth ar-lein ym mhob modiwl cyn ymgymryd â'u lleoliad ymarfer dysgu. Bydd myfyrwyr ar y TAR cyflogedig yn cael amser wedi'i neilltuo yn yr ysgol i gwblhau astudiaeth ar-lein a Gweithgareddau Ymarfer Dysgu. |
| Partneriaeth/Y Bartneriaeth | Y partneriaid yw'r Brifysgol Agored, Consortia Rhanbarthol ac ysgolion Partner Arweiniol gyda Llywodraeth Cymru. |
| Ymarfer dysgu | Amser a dreulir yn yr ysgol wedi'i neilltuo i gwblhau gweithgareddau TAR a datblygu gwaith addysgu. |
| Gweithgareddau Ymarfer Dysgu | Gweithgareddau i'w cwblhau yn yr ysgol, gan gynnwys tasgau rhagarweiniol a pharhaus sydd eu hangen fel rhan o ymarfer dysgu llwyddiannus. Mae'r tasgau gorfodol wedi'u dylunio i adeiladu ar y syniadau a'r cysyniadau a archwiliwyd yn ystod gwaith astudio a seminarau ar-lein a chyfleoedd i astudio gwersi a chwblhau ymchwil ar raddfa fach. |
| Fframwaith Asesu Ymarfer Dysgu | Fframwaith a ddefnyddir gan staff yr ysgol a'r Brifysgol i asesu cynnydd athro dan hyfforddiant yn erbyn y safonau addysgu. Llunnir y farn ganlynol: Rhagori ar Ddisgwyliadau, Ar y Trywydd Iawn gyda sawl Maes Cryfder, Ar y Trywydd Iawn, Ddim eto ar y Trywydd Iawn |
| Adroddiad Ymarfer Dysgu | Adroddiad a lunnir gan y Mentor, Cydlynydd Ysgol a'r Tiwtor Ymarfer ar ddiwedd y flwyddyn i asesu cynnydd yr athro dan hyfforddiant yn erbyn y safonau addysgu.<br><br>Bydd y rhain yn cael eu cwblhau ar adegau adolygu allweddol yn y flwyddyn gan y Mentor a'r Tiwtor Ymarfer. Byddant yn asesu cynnydd yr |

| | |
|---|---|
| Ffurflen Adolygu Ymarfer | athro dan hyfforddiant yn erbyn llinyn Addysgeg y safonau addysgu. Bydd staff yn nodi a yw'r athro dan hyfforddiant 'Ar y Trywydd Iawn' neu 'Ddim ar y Trywydd Iawn Eto'. Bydd y rhain yn bwydo i mewn i gyfarfodydd Cynnydd Myfyrwyr yn y Brifysgol ac yn cael eu defnyddio i adnabod myfyrwyr sydd angen unrhyw gymorth neu ymyriad parhaus pellach. |
| Cyfarfod Adolygu Ymarfer | Cyfarfod adolygu a gydlynir gan y Tiwtor Ymarfer i roi adborth ar arsylwadau gwersi ffurfiol a thrafod cynnydd tuag at y Safonau gyda'r athro dan hyfforddiant, y Mentor a/neu'r Cydlynydd Ysgol. Cynhelir 2 gyfarfod bob blwyddyn. |
| Tiwtor Ymarfer | Uwch-athro a fydd yn cwblhau adolygiad ymarfer o athrawon dan hyfforddiant ddwywaith bob blwyddyn, er mwyn eu cefnogi nhw a'u Mentor. |
| Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) | Llwyfan ar-lein (eBortffolio) a ddefnyddir gan athrawon dan hyfforddiant i ddangos eu cynnydd yn erbyn y safonau addysgu. Dylid ei rannu â Mentoriaid a Thiwtoriaid Cwricwlwm. Caiff ei gadw ar lwyfan PebblePad Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). |
| Cydlynydd Ysgol | Uwch-aelod o staff yr ysgol sy'n goruchwylio ac yn cefnogi'r athro dan hyfforddiant a'i fentor yn ystod y lleoliad ymarfer dysgu. |
| Ail Brofiad Ysgol (ABY) | Ail leoliad ysgol statudol o chwe wythnos a gwblheir gan fyfyrwyr cyflogedig yn unig mewn ysgol bartner arall. Caiff hwn ei gwblhau yn ystod hanner tymor olaf y flwyddyn gyntaf (Mehefin-Gorffennaf) |

| | |
|---|---|
| Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr | Fframwaith cymorth ffurfiol a ddefnyddir i gefnogi cynnydd athro dan hyfforddiant ar unrhyw adeg allweddol yn ystod y cwrs. Gall gael ei ysgogi gan yr athro dan hyfforddiant neu gan aelod o staff yr ysgol neu'r Brifysgol sy'n poeni am lesiant neu gynnydd academaidd y myfyriwr. |
| Awdit gwybodaeth bynciol | Awdit sy'n benodol i addysg gynradd neu uwchradd, sy'n helpu myfyrwyr i nodi meysydd o'u gwybodaeth bynciol sy'n gryf a'r rhai y mae angen eu datblygu ymhellach, er mwyn iddynt allu addysgu'r pwnc mewn ysgolion. Adolygir cynnydd a thargedau ar y cyd â'r Mentor drwy gydol yr ymarfer dysgu ac adroddir arnynt ar ddiwedd pob blwyddyn. |
| Aseiniad (mae'r) Tiwtor yn Marcio (ATM) | Aseiniad academaidd a gwblheir hanner ffordd drwy'r flwyddyn sy'n cael ei farcio gan Diwtor Cwricwlwm. |
| Uned | Bloc unedig o waith astudio ar-lein. Mae chwe llinyn, neu thema, ac mae uned sy'n gysylltiedig â phob llinyn wedi'i chynnwys ym mhob modiwl: mae 18 o unedau ar draws y cwrs cyfan, o Unedau 1A i 3F. |
| Awdit y Gymraeg | Archwiliad a gwblheir ar ddechrau rhaglen TAR i nodi targedau datblygu. |
| Fframwaith Cymhwysedd y Gymraeg | Dogfen a ddefnyddir i asesu lefel hyfedredd athrawon dan hyfforddiant yn y Gymraeg. Dylid cefnogi athrawon dan hyfforddiant i gasglu tystiolaeth i ddangos sut maent wedi parhau i feithrin eu sgiliau nhw yn ogystal â sgiliau eu disgyblion. Dylai Mentoriaid gefnogi athrawon dan hyfforddiant i wneud hyn. |
| Mentoriaid y Gymraeg | Aelod o staff ysgol y gofynnir iddo gefnogi athro dan hyfforddiant i feithrin sgiliau Cymraeg ac asesu cynnydd y myfyriwr os na fydd Mentor yn meddu ar y lefel angenrheidiol o hyfrydedd yn y Gymraeg |

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru